



Cynulliad National  
Cenedlaethol Assembly for  
Cymru Wales

## Y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol

Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru)

Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1  
Ionawr 2009

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
[www.cynulliadcymru.org](http://www.cynulliadcymru.org)

I gael rhagor o gopïau caled o'r ddogfen hon cysylltwch â:

Y Swyddfa Ddeddfwriaeth  
Y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8019

Ffacs: 029 2089 8021

E-bost: [legislationoffice@wales.gsi.gov.uk](mailto:legislationoffice@wales.gsi.gov.uk)

Cynnwys	Tudalen
Aelodau'r Pwyllgor	i
Crynodeb	ii
1. Rhagymadrodd	1
2. Y cefndir	3
3. Yr egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth	6
4. Sylwadau penodol ar yr adrannau	
Adrannau 1 - 8	13
Adrannau 9 - 12	21
Adrannau 13 - 15	22
Adrannau 16 - 28	32
Adrannau 29 - 31	41
Adrannau 37 - 46	48
5. Y goblygiadau ariannol	57
6. Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth	59
Atodiad A Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig a ddaeth i law	
Atodiad B Rhestr o'r dystiolaeth lafar	



## Y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol

### Aelodau'r Pwyllgor

Janice Gregory (Cadeirydd)	Llafur	Ogwr
Dai Lloyd	Plaid Cymru	Gorllewin De Cymru
Nick Ramsay (1 Hydref - 4 Tachwedd 2008)	Plaid Geidwadol Cymru	Sir Fynwy
Jenny Randerson	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	Canol Caerdydd
Joyce Watson	Llafur	Canolbarth a Gorllewin Cymru
Alun Cairns (4 Tachwedd 2008)	Plaid Geidwadol Cymru	Gorllewin De Cymru

## Crynodeb

### Yr egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth

1. Mae'r dystiolaeth yn amlygu consensws cyffredinol bod angen y Mesur arfaethedig. Rydym yn nodi bod y Mesur arfaethedig yn ceisio gosod elfennau sydd eisoes yn bodoli yn y cyfundrefnau presennol ar gyfer gwella a chynlluniau cymunedol mewn un darn o ddeddfwriaeth, a bod hyn, mewn perthynas â Rhan 1, yn ffurfioli'r cynnydd sydd wedi digwydd yn awdurdodau gwella Cymru ers i Ddeddfau Llywodraeth Leol 1999 a 2000 gael eu cyflwyno. Oherwydd hynny, o gofio cryfder y dystiolaeth, rydym yn cytuno bod angen y ddeddfwriaeth.
2. Rydym yn credu bod llawer o'r rhanddeiliaid wedi dangos y posibilrwydd y daw canlyniadau cadarnhaol o'r Mesur arfaethedig, yn enwedig mewn perthynas â'r canlynol: rhoi pŵer i awdurdodau gwella Cymru i ehangu eu cwmpas i arloesi wrth geisio gwella; ehangu cyfrifoldebau'r awdurdodau lleol ynglŷn â chynlluniau cymunedol a chynnwys partneriaid cynllunio cymunedol. Wedi nodi'r safbwyntiau hyn, a'r dystiolaeth ehangach, rydym yn cytuno bod y Mesur arfaethedig yn darparu'r fframwaith iawn i sicrhau gwelliant parhaus (Rhan 1) a chynllunio cymunedol effeithiol (Rhan 2), ac i oresgyn diffygion a gwendidau sydd wedi'u nodi yn y cyfundrefnau presennol.
3. Rydym yn cydnabod bod y Mesur arfaethedig yn cysylltu gwelliant yn Rhan 1 â chynlluniau cymunedol effeithiol yn Rhan 2. Er hynny, gan fod y mater hwn mor bwysig, rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog roi rhagor o ystyriaeth i sut y gallai'r Mesur arfaethedig gael ei ddiwygio i gryfhau'r cysylltiad hwn.
4. Rydym yn cydnabod y dystiolaeth a roddwyd i ategu pwyslais y Mesur arfaethedig ar wella parhaus mewn gwasanaethau a swyddogaethau yn hytrach na dod o hyd i risg o fethu. Rydyn ninnau o blaid mynd ati fel hyn.
5. Rydym yn nodi pryderon nifer o'r rhanddeiliaid ynghylch lefel y manylion a'r gorchmynion yn y Mesur arfaethedig a'r diffyg hyblygrwydd a allai godi yn sgil hynny. Er hynny, rydyn ni hefyd yn nodi'r dadleuon a gynigiwyd gan y Gweinidog sef bod y manylion yn egluro'r bwriad ac yn sicrhau dealltwriaeth glir o ofynion y ddeddfwriaeth.
6. Rydym wedi trafod yr angen am fanylion a gorchmynion wrth fwrw ymlaen â newid ac wrth roi sylw i ddiffygion y gyfundrefn bresennol, y mae'r Mesur arfaethedig yn ceisio'u datrys. Ymhellach, rydym wedi ystyried a fyddai canllawiau yn ddigon i wireddu'r bwriadau hyn.
7. At ei gilydd, does gennyn ni ddim gwrthwynebiad i lefel y manylion a'r gorchmynion a gynhwyswyd yn y Mesur arfaethedig. Serch hynny, oherwydd rhai o'r pryderon a fynegwyd gan rai o'r rhanddeiliaid rydym o'r farn y byddai'n ddoeth pe bai'r Gweinidog yn adolygu lefel y manylion yn y

Mesur arfaethedig gan gynnig gwelliannau priodol lle bo o'r farn bod hynny'n synhwyrol.

8. Rydym yn cytuno â'r rhanddeiliaid fod angen canllawiau amserol o ansawdd dda i gyd-fynd â rhoi'r Mesur arfaethedig ar waith ac rydym yn argymhell y dylai'r canllawiau hynny gael eu datblygu drwy ymgynghori â'r rhanddeiliaid allweddol.

Adrannau 1-8: Gwella, dangosyddion perfformiad a safonau perfformiad

9. Er ein bod yn nodi pryderon rhai sefydliadau nad yw'r Mesur arfaethedig yn cynnwys yr holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru, rydym yn ymwybodol bod cwmpas y Mesur arfaethedig wedi'i gyfyngu gan hyd a lled y cymhwysedd deddfwriaethol sy'n cael ei roi gan Fater 12.5 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

10. Rydym yn rhannu barn yr Archwilydd Cyffredinol y byddai'n well gosod dyletswydd ar yr awdurdodau gwella i sefydlu 'trefniadau effeithiol' er mwyn sicrhau gwelliant parhaus. Rydym o'r farn y bydd hynny'n annog yr awdurdodau gwella i ganolbwyntio ar y mathau o drefniadau y dylen nhw eu cyflwyno a rhoi ffocws mwy priodol i'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer ei waith yntau. Gan hynny, rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i sicrhau bod rhaid i awdurdod gwella wneud 'trefniadau effeithiol' i sicrhau gwelliant parhaus yn y modd y mae'n arfer ei swyddogaethau.

11. Er i rai o'r tystion amau'r saith agwedd ar wella, a'r ffaith eu bod wedi'u cynnwys ar wyneb y Mesur arfaethedig, rydym yn nodi eu bod wedi cael eu croesawu at ei gilydd.

12. Rydym o'r farn mai cynnwys yr agweddau ar wella a'u diffiniadau ar wyneb Mesur arfaethedig, yn hytrach nag mewn canllawiau, yw'r ffordd gywir i fynd ati am fod hynny'n mynegi'r bwriad yn eglur i'r rhanddeiliaid ynglŷn â'r agenda gwella, ac am fod modd ychwanegu at hynny â chanllawiau. Wrth ddod i'r farn hon, rydym yn ymwybodol hefyd fod y Mesur arfaethedig yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i newid y saith agwedd ar wella a'u diffiniadau drwy gyfrwng gorchymyn.

13. Rydym yn nodi bod y mwyafrif o'r rhanddeiliaid o blaid rhoi'r saith agwedd ar wella yn lle'r hen '3Es'.

14. Rydym yn cytuno â'r Gweinidog na fyddai'n briodol cynnwys agwedd arall ar wella ynglŷn ag arweinyddiaeth gymunedol a chynllunio. Serch hynny, rydym yn cydnabod mor bwysig yw sicrhau bod yna gysylltiadau cryf rhwng gwella, arweinyddiaeth gymunedol a chynllunio ac yn argymhell bod sylw'n cael ei roi i'r mater hwn mewn canllawiau fel yr awgrymwyd gan CLILC.

15. Er nad ydym o'r farn bod angen cynnwys 'darbodaeth' fel agwedd arall ar wella, rydym ni wedi nodi mor bwysig yw'r term ym marn yr

Archwilydd Cyffredinol ac yn argymhell y dylai'r canllawiau a fydd yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth esbonio sut mae cysyniad darbodaeth yn cydweddu â'r saith agwedd ar wella sydd yn y Mesur arfaethedig.

16. Gan hynny, rydym yn fodlon ar y saith agwedd ar wella sydd wedi'u rhestru yn adran 4 o'r Mesur arfaethedig.

17. O ran y diffiniadau yn adran 4(2) o'r Mesur arfaethedig, rydym yn cytuno â CLILC y dylen nhw fod yn gyson yn y ffordd y maen nhw wedi'u drafftio gan gyfeirio at 'arfer swyddogaethau'. Gan hynny, rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog ystyried cyflwyno gwelliannau i roi newidiadau o'r fath ar waith.

18. Rydym yn fodlon yn gyffredinol ar ddarpariaethau adran 8 ynghylch dangosyddion a safonau perfformiad.

19. Wnaethon ni ddim holi'r Gweinidog am y gwelliant a awgrymwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol i adran 8(3), sef y dylid ymgynghori'n statudol ag ef cyn i Weinidogion Cymru bennu dangosyddion a safonau perfformiad. Er hynny, rydym o'r farn bod yna rinwedd yn y cynnig ac rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog ystyried cyflwyno gwelliant priodol i sicrhau'r newid hwn.

#### Adrannau 9-12: Cydlafurio a gwella

20. Rydym yn cydnabod arfer presennol yr awdurdodau gwella o gydlafurio ac yn cytuno y gallai dyletswydd ar yr awdurdodau i gydlafurio fod yn anymarferol. Rydym yn cydnabod bod y pŵer galluogi fel y'i darperir yn adran 9 o'r Mesur arfaethedig yn ceisio cryfhau'r arfer presennol o gydlafurio a'i fod wedi'i groesawu. I'r perwyl hwn, rydym yn fodlon ar y pŵer galluogi y darperir ar ei gyfer yn adran 9.

#### Adrannau 13-15: Cynllunio gwelliannau a gwybodaeth am welliannau

21. Yn gyffredinol, rydym o'r farn bod y darpariaethau ar gyfer casglu gwybodaeth, ei defnyddio a'i chyhoeddi yn adrannau 13 i 15 o'r Mesur arfaethedig yn briodol yn fras. Mae rhai o agweddau penodol y fframwaith yn cael eu hystyried ym mharagraffau 113 i 147 isod.

22. Rydym wedi rhoi ystyriaeth ofalus i sylwadau CLILC ac eraill na ddylai dyletswydd i gymharu perfformiad gael ei chynnwys ar wyneb y Mesur arfaethedig. Er hynny, rydym o'r farn bod cymharu perfformiad yn ddyletswydd werthfawr i'r awdurdodau gwella. Gan hynny, rydym yn cytuno â'r Gweinidog y dylai gael ei chynnwys ar wyneb y Mesur arfaethedig. Wrth wneud hynny, rydym yn credu y bydd hyn yn rhoi arwydd clir o'r hyn sy'n cael ei ddisgwyl oddi wrth bob un o'r awdurdodau gwella nawr ac yn y dyfodol.

23. Rydym yn cydnabod sylwadau CLILC am gyhoeddi gwybodaeth am gydlafurio o dan adran 15(2)(c) ac rydym yn derbyn bod yna berygl, heb ragor o wybodaeth am lefel y manylion y bydd ei hangen, y gallai hyn fynd



yn faich. Oherwydd hynny, rydym yn argymhell y dylai eglurhad gael ei gynnig drwy ganllawiau er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth a gyhoeddir yn berthnasol ac yn ystyrllon i'r cyhoedd ac y dylai'r canllawiau hynny gael eu datblygu drwy gydweithredu'n agos â'r awdurdodau gwella.

24. Rydym wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r dyddiad, sef 31 Hydref, a gynhwyswyd yn adran 15(3)(a) o'r Mesur arfaethedig. At ei gilydd, rydym o'r farn ei bod yn iawn cynnwys dyddiad ar wyneb y Mesur arfaethedig yn adran 15(3)(a).

25. Er hynny, rydym yn cydnabod hefyd farn y rhai sydd wedi awgrymu y bydd yr awdurdodau gwella'n tueddu i weithio tuag at y dyddiad cau penodol, sef 31 Hydref, a allai greu goblygiadau ar gyfer gwaith yr Archwilydd Cyffredinol. Rydym yn nodi bod y Gweinidog wedi cytuno i ailystyried effaith y dyddiadau a gynigiwyd yn y Mesur arfaethedig ar waith yr Archwilydd Cyffredinol. Rydym yn croesawu hyn ac yn credu y dylai'r Gweinidog, wrth wneud hyn, hoelio sylw ar oblygiadau ymarferol newid y dyddiad cau, sef 31 Hydref, yn hytrach na 30 Tachwedd (sydd wedi'i gynnwys yn adran 20(3) o'r Mesur arfaethedig).

26. Gan hynny, rydym yn argymhell y byddai'n briodol i'r Gweinidog ailystyried y trefniadau amserlennu sydd wedi'u nodi yn y Mesur arfaethedig a chynnig gwelliannau priodol er mwyn sicrhau bod y trefniadau amserlennu'n gweithio yn ymarferol.

27. Ni waeth sut y caiff y mater hwn ei ddatrys, rydym yn credu ei bod yn holl-bwysig sicrhau bod canllawiau'n cael eu datblygu a fydd yn esbonio'n llawn sut y bwriedir i'r trefniadau amserlennu weithio yn ymarferol

28. Rydym o'r farn bod cynlluniau gwella yn rhan hanfodol o broses wella a'u bod yn ffynhonnell gwybodaeth hawdd ei hadnabod ynghylch pa waith y mae'r awdurdodau yn ei wneud i wella'u gwasanaethau. Rydym yn cytuno â'r Gweinidog y bydd cynllun o'r fath yn helpu i ffocysu a threfnu blaenoriaethau agenda gwella yr awdurdodau. Nid ydym yn cytuno, felly, â'r rhai sydd wedi awgrymu nad oes angen cynlluniau gwella. Oherwydd hynny, rydym o'r farn y dylai'r cyfeiriad at gynlluniau gwella gael ei gadw ar wyneb y Mesur arfaethedig.

29. Er i bwysigrwydd ymgysylltu â dinasyddion gael ei gydnabod, nid oedd bob amser yn glir sut y dylid mynd i'r afael â hyn: ai drwy'r Mesur arfaethedig ynteu drwy ganllawiau. Cydnabu llawer o'r rhanddeiliaid fod ymgysylltu'n hanfodol os yw'r awdurdodau gwella am gyflawni gwelliannau mewn gwasanaethau sy'n bodloni anghenion y cyhoedd.

30. Wrth ddatblygu canllawiau ar adrannau 13 i 15 o'r Mesur arfaethedig, rydym yn argymhell y dylid mynd ati o ddirif i roi ystyriaeth i'r ffordd orau i gyflwyno gwybodaeth am wella er mwyn sicrhau ei bod yn ystyrllon i'r cyhoedd a'i bod yn gysylltiedig â'r gwasanaethau y maen nhw'n eu cael. Fel rhan o'r broses hon, rydym o'r farn ei bod yn hanfodol i ganllawiau o'r fath gael eu datblygu ar y cyd ag amrediad mor eang â phosibl o randdeiliaid.

## Adrannau 16-28: Archwiliadau ac asesiadau gwella, a swyddogaethau eraill yr Archwilydd Cyffredinol

31. Rydym o'r farn bod y fframwaith rheoleiddio ac arolygu cyffredinol yn briodol, er ein bod yn cyflwyno sylwadau ar agweddau penodol ar y fframwaith a nodir yn adrannau 16, 18, 19 a 24.
32. Rydym yn cytuno â'r Gweinidog fod y term 'rheoleiddiwr' yn adran 16 yn briodol.
33. Rydym yn cytuno bod asesiadau blynyddol fel y maen nhw wedi'u nodi yn adran 18 o'r Mesur arfaethedig yn briodol ond yn ategu sylwadau'r Archwilydd Cyffredinol a'r Gweinidog y dylai'r gwaith asesu a wneir fod yn gymesur â'r sefyllfa. Gan hynny, rydym yn argymhell y dylai'r canllawiau roi sylw penodol i'r pwynt hwn.
34. Rydym wedi nodi pryderon AGGCC ac Estyn y gallai adran 19 o'r Mesur arfaethedig, fel y mae wedi'i drafftio, o dan rai amgylchiadau lyffetheirio'u gwaith nhw fel rheoleiddwyr, bod yr ymagwedd yn ddiangen a'i bod, yng ngeiriau Estyn, yn methu â chydabod "that the office of HMCI has an equivalent independent status to that of the Auditor General". Rydym yn cytuno ag AGGCC ac Estyn y byddai dyletswydd i gydweithredu â'r Archwilydd Cyffredinol yn gwireddu'r diben a fwriedir yn adran 19. Gan hynny, rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog ystyried cyflwyno gwelliannau i adran 19, gan ddisodli'r darpariaethau presennol â darpariaethau a fydd yn darparu ar gyfer dyletswydd i gydweithredu rhwng yr Archwilydd Cyffredinol a'r rheoleiddwyr perthnasol.
35. Er ein bod o blaid cynnwys dyddiad 30 Tachwedd yn adran 20(3) o'r Mesur arfaethedig, rydym yn nodi bod y Gweinidog wedi cytuno i edrych eto ar effaith y trefniadau amserlennu y mae'r Mesur arfaethedig yn eu creu. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, rydym yn croesawu'r symudiad hwn ac yn cyfeirio at ein casgliadau a'n hargymhellion blaenorol ynghylch y trefniadau amserlennu.
36. Rydym yn credu bod y gwaith drafftio yn adran 24 yn briodol. Er ein bod yn cydnabod y pryderon a godwyd gan Estyn ac AGGCC, rydym yn nodi bod adran 24, fel y mae wedi'i drafftio, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol ymgynghori â nhw cyn i amserlen gael ei phennu. Nid ydym yn credu y byddai'n briodol i'r Archwilydd Cyffredinol reoli gweithgareddau rheoleiddwyr perthnasol eraill o gofio'u statws ac y dylai unrhyw faterion ynglŷn ag amseru gweithgareddau'r rheoleiddwyr perthnasol gael eu datrys drwy'r broses ymgynghori y darperir ar ei chyfer yn adran 24(3) o'r Mesur arfaethedig.

## Adrannau 29-31: Pwerau Gweinidogion Cymru

37. Er bod llawer o sefydliadau wedi mynegi pryder ynglŷn ag ehnagder y pŵer sy'n cael ei roi i Weinidogion Cymru i 'wneud unrhyw beth' o dan adran 29, rydym yn nodi bod rhywfaint o gydnabyddiaeth wedi bod mai'r hyn y mae ei angen yw syniad cliriach o sut y caiff y pwerau hyn eu defnyddio. Rydym yn derbyn ei bod yn anodd nodi mewn deddfwriaeth bob posibilrwydd a allai godi, ac y gallai ceisio gwneud hynny gael effaith negyddol ar allu Gweinidogion Cymru i helpu awdurdodau gwella. Rydym hefyd yn credu ei bod yn bwysig cydnabod bod adran 29 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i helpu ar gais yr awdurdodau gwella. O dan yr amgylchiadau, rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog ystyried sefydlu concordat i egluro o dan ba amgylchiadau y mae'r pŵer o dan adran 29 i gael ei harfer.

38. Rydym hefyd yn credu y gallai rhai o'r pryderon gael eu goresgyn pe bai dyletswydd yn cael ei darparu i ymgynghori â'r awdurdodau gwella cyn arfer y pŵer yn adran 29. Rydym hefyd yn credu y dylai'r cysylltiad rhwng adran 29 ac adran 30 (sy'n amlwg o sut mae adran 30 wedi'i drafftio) gael ei nodi'n glir yn adran 29. Gan hynny, rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog ystyried cyflwyno gwelliannau priodol i wneud y newidiadau hyn.

39. Rydym wedi nodi bod yna wrthwynebiad cryf i'r pwerau i gyfarwyddo awdurdodau i gydlafurio a geir yn adrannau 30(2)(c) a 31 o'r Mesur arfaethedig. Er hynny, rydym o'r farn bod y pwerau hyn yn briodol. Rydym yn derbyn barn y Gweinidog na fyddai'r pwerau hyn yn cael eu defnyddio fel rhan o'r gweithgarwch arferol ac yn nodi cydnabyddiaeth y Gweinidog y byddai'n wrthgynhyrchiol eu defnyddio o dan rai amgylchiadau. Rydym hefyd wedi dod i'n casgliad ar sail ein hargymhelliad ynghylch cynnwys darpariaeth yn adran 29 i'w gwneud yn ofynnol bod rhaid ymgynghori cyn i'r pŵer a ddarperir gan yr adran honno gael ei arfer; dylai cynnwys pŵer o'r fath sicrhau, ran amlaf, fod yna ddeialog gydag awdurdod gwella yn gynnar yn y broses a chyn unrhyw benderfyniad dilynol i arfer y pŵer o dan adran 30(2)(c). Rydym o'r farn y byddai'r angen i ymgynghori er mwyn datrys y problemau yn rhy hwyr ac yn ddibwrpas bron erbyn i ystyriaeth gael ei rhoi i roi cyfarwyddyd o dan adran 30(2)(c).

## Adrannau 37-46: Cynllunio cymunedol a strategaethau cymunedol

40. Rydym yn nodi bod y darpariaethau yn y Mesur arfaethedig ar gynllunio cymunedol wedi ennyn cefnogaeth eang.

41. Rydym yn cytuno bod y ddyletswydd yn adran 37 o'r Mesur arfaethedig yn briodol ac yn argymhell y dylai rôl arwain yr awdurdodau lleol yn y broses cynllunio cymunedol gael ei datgan drwy gyfrwng canllawiau.

42. Rydym o'r farn bod y rhestr o bartneriaid cynllunio cymunedol yn briodol fel y mae wedi'i drafftio yn adran 38. Wrth ddod i'r casgliad hwn, rydym yn nodi bod adran 38(2) o'r Mesur arfaethedig yn caniatáu i'r rhestr gael ei newid drwy orchymyn.

43. O ran cynnwys y prif gwnstabiliaid yn benodol, rydym yn nodi'r pryderon a fynegwyd gan WACPO. Rydym yn fodlon bod cynnwys y prif gwnstabiliaid yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol ac yn credu y bydd eu cynnwys yn rhoi sicrwydd i'w rôl ac yn fuddiol i'r broses cynllunio cymunedol.

44. Yn gysylltiedig â'n hystyriaeth ar adran 38, rydym wedi nodi bod adran 44 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a phartneriaid cynllunio cymunedol ymgynghori â phersonau a sefydliadau penodedig. Yn benodol, rydym yn croesawu'r cyfeiriad penodol at ymgynghori â sefydliadau gwirfoddol a sefydliadau busnes, o gofio'r rhan hanfodol y gallan nhw ei chwarae yn y broses cynllunio cymunedol.

45. Er ein bod yn cydnabod y byddai adran 44 hefyd yn caniatáu ymgynghori â sefydliadau fel prifysgolion, rydym o'r farn y dylai'r ddarpariaeth hon gael ei chryfhau. Gan hynny, rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant priodol i gynnwys 'cynrychiolwyr cyrff cyhoeddus perthnasol' (neu derm tebyg o'r fath) fel person i'w restru yn adran 44(2). Rydym hefyd yn argymhell y dylai'r canllawiau roi sylw i'r amrywiaeth o sefydliadau cyffredinol y disgwylir i awdurdod lleol a'i bartneriaid cynllunio cymunedol ymgynghori â nhw.

46. Rydym hefyd yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant priodol i ganiatáu i'r rhestr o bersonau a gynhwysir yn adran 44(2) gael ei diwygio drwy orchymyn.

47. Rydym yn cytuno â barn CLILC y dylid barnu bod adolygu strategaethau cymunedol yn broses barhaus ond rydym o'r farn bod y trefniadau sydd wedi'u nodi yn y Mesur arfaethedig yn fframwaith priodol ar gyfer adolygu a monitro strategaethau cymunedol.

48. Er hynny, o ran adran 39, rydym o'r farn y byddai'n gall gosod rhwymedigaeth statudol ar awdurdod lleol i ymgynghori â'r partneriaid cynllunio cymunedol pan fyddai drafft o'r strategaeth gymunedol wedi'i pharatoi. Gan hynny, rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i wneud y newid hwn.

49. Rydym hefyd yn argymhell y dylai'r Gweinidog ystyried cyflwyno gwelliant fel bod y Mesur arfaethedig yn cynnwys cydnabyddiaeth bendant y dylai fod rhaid i strategaeth gymunedol sy'n ymwneud â Pharc Cenedlaethol gymryd i ystyriaeth, a chofleidio, bolisiau Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol.

50. Rydym yn credu bod cryn rinwedd yn awgrym CLILC y dylai adran 46 o'r Mesur arfaethedig gael ei chryfhau fel y dylai Gweinidogion Cymru roi sylw i'r blaenoriaethau sydd wedi'u hamlinellu mewn strategaethau cymunedol wrth arfer eu swyddogaethau. Gan hynny, rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog ystyried cyflwyno gwelliant priodol i roi sylw i'r pwynt hwn.

## Y goblygiadau ariannol

51. Rydym yn nodi casgliadau'r Pwyllgor Cyllid ac yn rhannu eu siom bod cyn lleied o wybodaeth am y costau sy'n gysylltiedig â'r Mesur arfaethedig wedi'i darparu. Oherwydd y pryderon a godwyd yn ein tystiolaeth ni, rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth y Cynulliad fynd ati'n barhaus i fonitro'r goblygiadau ariannol ar gyfer awdurdodau gwella a phartneriaid cynllunio cymunedol yn sgil rhoi'r Mesur arfaethedig ar waith. O ganlyniad, rydym yn argymhell hefyd y dylai Llywodraeth y Cynulliad roi cynnlid priodol i'r awdurdodau yn ôl yr angen fel ffordd i sicrhau bod amcanion y Mesur arfaethedig yn cael eu gwireddu'n llwyddiannus.

## Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

52. Rydym yn nodi casgliad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth eu bod yn fodlon ar y darpariaethau ynglŷn ag is-ddeddfwriaeth yn y Mesur arfaethedig a'r weithdrefn ynglŷn â nhw. Rydym yn cytuno â chasgliadau'r Pwyllgor.



## 1. Rhagymadrodd

1. Ar 22 Medi 2008, cyflwynodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, y Dr Brian Gibbons AC (“y Gweinidog”), y Mesur arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru) a drannoeth fe wnaeth ddatganiad yn y cyfarfod Llawn.<sup>1</sup>
2. Yn eu cyfarfod ar 23 Medi 2008, cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cyfeirio'r Mesur arfaethedig at bwyllgor er mwyn i'r egwyddorion cyffredinol gael eu hystyried (Cyfnod 1), yn unol â Rheol Sefydlog 23.21. Cytunwyd hefyd fod rhaid i'r pwyllgor gyflwyno adroddiad ar y Mesur arfaethedig erbyn 23 Ionawr 2009 fan bellaf.
3. Yn sgil penderfyniad yn y cyfarfod llawn ar 1 Hydref 2008, cafodd y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol ei sefydlu, yn unol â Rheol Sefydlog 21.

### *Cylch gorchwyl y gwaith craffu*

4. Yn ein cyfarfod cyntaf ar 14 Hydref 2008, cytunodd y Pwyllgor ar y fframwaith canlynol ar gyfer craffu ar egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig:

Ystyried:

- (i) yr angen am Fesur arfaethedig i wireddu ei ddibenion, sef:
  - diwygio'r sail statudol dros wella gwasanaethau'r awdurdodau lleol; a
  - diwygio cynlluniau a strategaethau cymunedol;
- (ii) a yw'r Mesur arfaethedig yn gwireddu ei ddibenion;
- (iii) y darpariaethau allweddol a nodir yn y Mesur arfaethedig ac a ydyn nhw'n briodol i wireddu ei ddibenion;
- (iv) rhwystrau posibl a allai atal y darpariaethau allweddol rhag cael eu rhoi ar waith; a
- (v) barn y rhanddeiliaid a fydd yn gorfod gweithio gyda'r trefniadau newydd.

### *Ymagwedd y Pwyllgor*

5. Cyhoeddodd y Pwyllgor alwad gyffredinol am dystiolaeth gan wahodd y rhanddeiliaid allweddol, yn bennaf o feysydd llywodraeth leol, rheoleiddio ac arolygu a chynllunio cymunedol i gyflyno tystiolaeth ysgrifenedig i

---

<sup>1</sup> Cofnod Trafodion y Cyfarfod Llawn, 23 Medi 2008, ar gael yn: <http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-chamber/bus-chamber-third-assembly-rop.htm?act=dis&id=98411&ds=9/2008#rhif9>. (DS: oni ddywedir yn wahanol, mae'r cyfeiriadau dilynol at Gofnod y Trafodion yn cyfeirio at drafodion y Pwyllgor ar y Mesur arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol.)

fwydo'n gwaith. Mae rhestr o'r ymatebion i'r ymarfer ymgynghori ar gael yn Atodiad 1.

6. Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan nifer o dystion, ac mae'r manylion ar gael yn Atodiad 2.

7. Yr adroddiad canlynol yw'r casgliadau a'r argymhellion rydyn ni wedi dod iddyn nhw ar sail y dystiolaeth a ddaeth i law yn ystod ein gwaith. Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu.



## 2. Y cefndir

*Cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol i wneud y Mesur arfaethedig*

8. Mae'r prif bŵer sy'n galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud Mesur mewn perthynas â Llywodraeth Leol wedi'i gynnwys ym Materion 12.4 a 12.5 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006:

### *Mater 12.4*

*Darpariaeth ar gyfer strategaethau cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ar gyfer hybu neu wella llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol eu hardaloedd neu ar gyfer cyfrannu at sicrhau datblygu cynaliadwy yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys darpariaeth sy'n gosod gofynion mewn cysylltiad â'r strategaethau hynny ar bersonau eraill sydd â swyddogaethau o natur gyhoeddus ac mewn cysylltiad â'r strategaethau hynny.*

### *Mater 12.5*

*Darpariaeth ar gyfer y canlynol ac mewn cysylltiad â hwy -*

- (a) gwneud trefniadau gan yr awdurdodau perthnasol yng Nghymru i sicrhau gwelliant yn y modd yr arferir eu swyddogaethau,*
- (b) gwneud trefniadau gan yr awdurdodau perthnasol yng Nghymru i gynnwys wrth i'w swyddogaethau gael eu harfer bobl y mae arfer y swyddogaethau yn debyg o effeithio arnynt neu sy'n debyg o fod â buddiant yn y modd yr arferir y swyddogaethau hynny, ac*
- (c) asesu ac arolygu perfformiad yr awdurdodau perthnasol yng Nghymru wrth iddynt arfer eu swyddogaethau.*

*'Awdurdodau perthnasol yng Nghymru' ('relevant Welsh authorities') yw'r canlynol -*

- (a) cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor cymuned yng Nghymru,*
- (b) awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru,*
- (c) awdurdod tân ac achub yng Nghymru a gyfansoddwyd gan gynllun o dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo,*
- (ch) corff codi ardollau o fewn ystyr adran 74(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yr oedd y cyngor sir neu'r awdurdod codi tâl ar ei gyfer ac y cyfeirir ato yn adran 74(1)(b) o'r Ddeddf honno yn gyngor neu'n awdurdod ar gyfer ardal yng Nghymru,*
- (d) corff y mae adran 75 o'r Ddeddf honno (ardollau arbennig) yn gymwys iddo ac yr oedd ganddo o ran y flwyddyn ariannol yn dechrau ym 1989 bŵer i godi ardreth drwy gyfeirio at eiddo yng Nghymru.*

## Y Memorandwm Esboniadol

9. Mae'r Memorandwm Esboniadol<sup>2</sup> sy'n cyd-fynd â'r Mesur arfaethedig yn datgan:

Diben y Mesur yw diwygio'r sail statudol ar gyfer gwella gwasanaethau a chynllunio strategol gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'r Mesur yn cysylltu llesiant a chynllunio cymunedol â gwella gwasanaethau.

Mae'r Mesur yn ailddiffinio dyletswyddau sylfaenol i roi cyfrif am welliannau. Bydd yn ei gwneud hi'n ofynnol i bartneriaid lleol gydweithredu wrth sicrhau canlyniadau strategol cymunedol ac ymgysylltu â dinasyddion.<sup>3</sup>

10. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio mai "diben y Mesur yn ei hanfod yw diwygio a disodli cyfundrefnau sydd yn y ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol (Deddfau Llywodraeth Leol 1999 a 2000 yn bennaf)".<sup>4</sup>

11. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at wendidau mawr yng nghyfundrefn bresennol y 'gwerth gorau', a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol 1999 ac mae'n esbonio sut y cafodd y gwerth gorau ei ategu yn 2001-2 gan Raglen Cymru ar gyfer Gwella, fel ffordd i gywiro llawer o'r gwendidau hynny.<sup>5</sup> Gwyrodd y canllawiau a gyhoeddwyd ynghylch Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella yn sylweddol oddi wrth gynllun Deddf 1999 ac mae'r diffyg sail statudol eglur a chadarn wedi arwain at amheuaeth ac anghysondeb ymhlith yr awdurdodau lleol.<sup>6</sup> Nod Rhan 1 o'r Mesur arfaethedig felly yw:

diddymu'r gyfundrefn 'gwerth gorau' a rhoi yn ei lle gyfundrefn arall sy'n adlewyrchu'n well yr hyn y mae Rhaglen Gwella ar gyfer Cymru yn ceisio ei gyflawni yn fras ... ac yn adlewyrchu'r cyd-destun polisi cyfredol a phrofiad awdurdodau a chyrrff eraill sydd wedi defnyddio Rhaglen Gwella ar gyfer Cymru hyd yma...<sup>7</sup>

12. Ynglŷn â Rhan 2 o'r Mesur arfaethedig, sy'n ymwneud â strategaethau a chynlluniau cymunedol, mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio bod yna ddau ddiffyg bras yn y gyfundrefn bresennol ar gyfer strategaethau cymunedol<sup>8</sup> gan ddatgan:

Mae angen ffocws cliriach ar gynllunio cymunedol yng Nghymru a mwy o ymdeimlad y gellir yn wir ei wireddu os ydyw i gyflawni ei botensial yn llawn. Ceisia'r cynigion o fewn y Mesur unioni hynny drwy osod gwaith partneriaethau lleol ar sylfaen fwy cyson a mwy

<sup>2</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Memorandwm Esboniadol i'r Mesur arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru)*, Medi 2008

<sup>3</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraffau 1.1-1.2

<sup>4</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.3

<sup>5</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraffau 3.4-3.5

<sup>6</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraffau 3.5

<sup>7</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.6

<sup>8</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.8

cadarn a thrwy roi rhyddid i gyrff lleol ddiffinio a chytuno ar flaenoriaethau o ran eu strategaeth gymunedol o fewn fframwaith eang.<sup>9</sup>

13. Bwriad cyffredinol y Mesur arfaethedig yw:

- cynnig mwy o hyblygrwydd i awdurdodau ymateb i anghenion dinasyddion a chymunedau o fewn cyd-destun cenedlaethol, gan roi eglurhad a chryfhau gallu Llywodraeth y Cynulliad i ymateb i achosion o danberfformio;
- creu cyfundrefn statudol sy'n integreiddio'n well y gwaith cynllunio strategol hirdymor a'r gwaith mwy byrdymor o wella gwasanaethau;
- diwygio'r gyfraith er mwyn adlewyrchu'n well natur a rôl wahanol llywodraeth leol yng Nghymru ;  
adeiladu ar brofiad awdurdodau a chyrrff eraill wrth weithredu o fewn y cyfundrefnau cyfredol.<sup>10</sup>

14. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn esbonio bod llawer o'r Mesur arfaethedig yn dwyn ynghyd elfennau o Raglen Gwella ar gyfer Cymru a'r cyfundrefnau gogyfer â chynllunio cymunedol nad ydynt yn statudol ar hyn o bryd.<sup>11</sup>

---

<sup>9</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.9

<sup>10</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.11

<sup>11</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.13

### 3. Yr egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth

#### *Rhan 1: Gwella Llywodraeth Leol - tystiolaeth y rhanddeiliaid*

15. Cafwyd cefnogaeth gyffredinol o blaid yr angen i ddeddfu, ac mae llawer o'r rhanddeiliaid yn cytuno bod y Mesur arfaethedig yn darparu'r fframwaith iawn ar gyfer sicrhau gwelliant parhaus.

16. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ("CLILC"):

"The proposed Measure's main value is in terms of the powers that it grants, because it extends the scope for innovation in pursuit of improvement, and those are the powers it allows local authorities and the Assembly Government."<sup>12</sup>

17. Rhoddodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ("AGGCC") groeso i'r "greater clarity on the duty on local authorities to secure continuous improvement"<sup>13</sup>, a dywedodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ("yr Archwilydd Cyffredinol"):

"... the best part of the Measure ... is the single question that I am required to answer for every authority, every year, as to whether the authority has arrangements in place to secure continuous improvements."<sup>14</sup>

18. Cafodd y Mesur arfaethedig ei groesawu hefyd gan Gymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch Reolwyr yr Awdurdodau Lleol yng Nghymru ("SOLACE").<sup>15</sup> Er nad oedden nhw'n credu y byddai'n gwneud "a huge difference to the way in which local authorities work at present", roedd SOLACE yn teimlo y byddai'n cryfhau eu llaw<sup>16</sup> ac "on balance, it will serve to assist local authorities in the process of improvement, rather than the opposite".<sup>17</sup>

19. Dywedodd y Gwasanaethau Tân ac Achub<sup>18</sup> fod y ddeddfwriaeth, o'u safbwynt nhw, yn amserol a'i bod yn dod â nhw i mewn i'r "legislative fold as far as continuous improvement is concerned".<sup>19</sup> Yn yr un modd, rhoddodd Cymdeithas Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru (WANPA) groeso i'r Mesur arfaethedig gan ei fod yn angenrheidiol er mwyn darparu "an up-to-date statutory basis for performance, the improvement regime and community planning" a'i fod yn "likely to add clarity, certainty, and

<sup>12</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [4], 11 Tachwedd 2008

<sup>13</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [10], 25 Tachwedd 2008

<sup>14</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [13], 11 Tachwedd 2008

<sup>15</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [7], 25 Tachwedd 2008

<sup>16</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [5], 25 Tachwedd 2008

<sup>17</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [5], 25 Tachwedd 2008

<sup>18</sup> Rhoddodd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorrlewin Cymru dystiolaeth ar ran Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru, ac ar y sail honno y cyfeirir at eu tystiolaeth ysgrifenedg a llafar.

<sup>19</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [6], 2 Rhagfyr 2008

transparency”.<sup>20</sup> Ychwanegodd y Gymdeithas y gall y manteision hyn gael eu gwella drwy gyfrwng “detailed guidance”.<sup>21</sup>

20. Roedd yr awdurdodau lleol yn gyffredinol yn gefnogol i'r angen am ddeddfwriaeth. Roedd Cyngor Bwrdeistref Wrecsam yn cydnabod bod angen diwygio'r “legislation to provide a robust statutory underpinning of the values and aims of the Wales Programme for Improvement and Community Planning Guidance” ac roedden nhw o blaid cael dyletswydd i sicrhau gwelliant parhaus yn fwy eang yn lle dyletswydd y gwerth gorau.<sup>22</sup> Mynegwyd rhywbeth tebyg gan Gyngor Sir Ddinbych<sup>23</sup> a dywedodd Cyngor Gwynedd y dylai'r Mesur arfaethedig “gynorthwyo llywodraeth leol i greu diwylliant sydd yn hybu menter ac arloesi er mwyn gwella gwasanaethau”.<sup>24</sup>

21. Er hynny, mynegodd rhai sefydliadau amheuson am agweddau ar y Mesur arfaethedig. Er bod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn croesawu'r ffaith bod pwerau cydradd i gydlafurio a dirprwyo yn cael eu hestyn i'r awdurdodau tân ac achub, roedden nhw heb eu hargyhoeddi “that the proposed Measure has gone far enough in tackling the identified shortcomings in the existing legislation”, gan awgrymu y byddai rhywfaint o'r “rigidity ... and confusion” a geid yn Neddf Llywodraeth Leol 1999 yn cael eu cyflwyno eto.<sup>25</sup>

22. Cyflwynodd nifer o'r rhanddeiliaid sylwadau ar lefel y manylion a'r gorchmynion sydd wedi'u cynnwys yn y Mesur arfaethedig. Dywedodd y Dr Tom Entwistle o Ysgol Fusnes Caerdydd ei fod yn llwyr o blaid “the broad planks or principles underlying the proposed Measure in terms of the emphasis on planning, regulation, engagement and collaboration”, sydd, fe awgrymodd, yn “good drivers of improvement”<sup>26</sup>, ond eto i gyd roedd yn amau lefel y manylion ynddo. Yn benodol, nododd fod y gyfundrefn yng Nghymru wedi datblygu ac wedi newid lawer iawn er 1999, a phe bai'r duedd honno yn parhau, roedd yn amau y byddai'n anodd newid y gyfundrefn o gofio natur fanwl y Mesur arfaethedig.<sup>27</sup>

23. Rhybuddiodd y Gwasanaethau Tân ac Achub hefyd y gallai'r Mesur arfaethedig fod yn rhy orchmynnol, gan blannu “too many detailed processes within statutory duties”. Roedden nhw'n ofni y byddai hynny'n arwain at “the inflexibility which was a negative feature of the former best value arrangements”.<sup>28</sup>

24. Un thema gyffredin a ddaeth i'r amlwg oedd bod llawer o'r rhanddeiliaid yn croesawu'r cyfle i symud oddi wrth y ffocws ar risg wrth hybu gwelliannau mewn gwasanaethau a swyddogaethau. Yn ôl yr Archwilydd Cyffredinol, byddai'r Mesur arfaethedig yn dileu:

<sup>20</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [7], 2 Rhagfyr 2008

<sup>21</sup> Ibid

<sup>22</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG10

<sup>23</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG21

<sup>24</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG23

<sup>25</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG17

<sup>26</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [126], 25 Tachwedd 2008

<sup>27</sup> Cofnod y Trafodion, paragraffau [127-9], 25 Tachwedd 2008

<sup>28</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG11

“... the potentially confusing and inappropriate emphasis on risk which underpins the current arrangements and which, if interpreted as demanding risk reduction, actually conflicts with authorities drive to deliver service innovation. Local Authorities’ business and improvement planning arrangements should, therefore, focus directly on improvement objectives rather than on risk.”<sup>29</sup>

25. Ategwyd y farn hon gan randdeiliaid eraill, gan gynnwys Estyn a ddywedodd hyn:

“We are particularly supportive of the emphasis on driving continuous improvement rather than trying to identify risk of failure. The framework is more rigorous, and the notion of setting national objectives as well as more local objectives is helpful, as is a strong emphasis on self-evaluation and improvement, which, crucially, is backed-up by an external level of moderation and scrutiny from bodies such as ours.”<sup>30</sup>

26. Pwysleisiodd llawer o’r rhanddeiliaid mor bwysig fyddai canllawiau i helpu i ddehongli’r Mesur arfaethedig a’i roi ar waith. Ar ben hynny, cawsom dystiolaeth gref bod y rhanddeiliaid am gael gwneud cyfraniad priodol at y canllawiau hynny. Roedd yr Archwilydd Cyffredinol yn credu “the main change in culture will come from the guidance and the way in which the Measure is operated in practice”.<sup>31</sup> Ategwyd y farn honno gan Estyn, a ddywedodd:

“The scope and the quality of subsequent guidance will be critical in helping authorities to implement the proposed Measure and also in helping regulators and inspectors when they come to look at external scrutiny.”<sup>32</sup>

27. Pwysleisiodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru mor bwysig oedd hi fod y canllawiau yn amserol.<sup>33</sup>

## *Rhan 2: Cynlluniau a Strategaethau Cymunedol - tystiolaeth y rhanddeiliaid*

28. At ei gilydd, roedd y dystiolaeth a roddwyd inni o blaid Rhan 2 o’r Mesur arfaethedig, a rhoddodd llawer o sefydliadau gefnogaeth benodol i’r cysylltiad a wnaed rhwng Rhannau 1 a 2.

29. Nododd CLILC eu bod wedi nodi gwendidau yn y cysylltiadau rhwng strategaethau cymunedol a’r agenda ar gyfer gwella. Gan hynny, roedden nhw’n croesawu “the fact that the duties are getting secured in the basis of legislation”<sup>34</sup> gan ddweud bod y Mesur arfaethedig yn dod â’r “legislative

---

<sup>29</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG2

<sup>30</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [60], 25 Tachwedd 2008

<sup>31</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [85], 11 Tachwedd 2008

<sup>32</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [91], 25 Tachwedd 2008

<sup>33</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG17

<sup>34</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [7], 11 Tachwedd 2008

framework around improvement and community planning much more neatly together”.<sup>35</sup>

30. Roedd Rhwydwaith y Swyddogion Cynllunio Cymunedol (“CPON”) yn gefnogol i’r Mesur arfaethedig hefyd yn nhermau’r goblygiadau ar gyfer cynllunio cymunedol, gan ddweud ei fod yn cynnig “a much better way forward and offers many advantages”.<sup>36</sup> Cyfeiriodd y Rhwydwaith hefyd at y cysylltiadau rhwng y cynllun gwella corfforaethol a’r cynllun cymunedol, ac yn benodol y daw amcanion y cynllun cymunedol yn amcanion y cynllun corfforaethol hefyd, sy’n gwneud “quite a bit of difference in terms of tying the two together”.<sup>37</sup>

31. Dywedodd y CPON hefyd y bydd y Mesur arfaethedig yn rhoi “greater impetus to the community planning process”<sup>38</sup> ac y bydd yn golygu bod y canllawiau presennol yn wirioneddol statudol,<sup>39</sup> gan gredu y bydd y Mesur arfaethedig yn sicrhau “the proper legislative background” ar gyfer cynlluniau cymunedol, o gofio bod y cefndir hwnnw ar hyn o bryd yn “pretty flimsy”.<sup>40</sup>

32. Roedd Un Llais Cymru’n cytuno, gan ddweud hyn: “the legislation is required in order to achieve a more consistent approach to community planning”.<sup>41</sup> Nododd Un Llais Cymru hyn hefyd: “the focus on citizen engagement is much stronger now than when the community planning process was first envisaged and ... that is reinforced again through the proposed Measure”.<sup>42</sup> Dywedodd Un Llais Cymru hefyd fod y Mesur arfaethedig yn gyfle i sicrhau bod llais cynghorau cymuned a thref yn cael ei glywed,<sup>43</sup> a ddylai arwain, yn ei dro, at wasanaethau o ansawdd well.<sup>44</sup>

33. Rhoddodd Awdurdodau Heddlu Cymru groeso i’r ffaith y byddan nhw’n cael eu cynnwys “in community planning at a strategic level for the first time”<sup>45</sup> gan obeithio y bydd y Mesur arfaethedig yn gwella “the practice and operation of community planning overall”.<sup>46</sup>

34. Er hynny, mynegwyd rhybudd gan SOLACE. Er eu bod yn gryf o blaid “the aim to better integrate community planning with service improvement”, roedd SOLACE yn teimlo y dylai camau gael eu cymryd i gryfhau mwy ar y cysylltiadau rhyngddyn nhw ac y gallai hynny gael ei wneud drwy roi mwy o bwysau ar “the need to focus on outcomes and on engaging with citizens to ensure that the needs of local communities are met”.<sup>47</sup>

---

<sup>35</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [13], 11 Tachwedd 2008

<sup>36</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [20], 18 Tachwedd 2008

<sup>37</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [29], 18 Tachwedd 2008

<sup>38</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [35] 18 Tachwedd 2008

<sup>39</sup> Ibid

<sup>40</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [108], 18 Tachwedd 2008

<sup>41</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG7

<sup>42</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [36], 18 Tachwedd 2008

<sup>43</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [36], 18 Tachwedd 2008

<sup>44</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [40], 18 Tachwedd 2008

<sup>45</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [37], 18 Tachwedd 2008

<sup>46</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [41], 18 Tachwedd 2008

<sup>47</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG12

## Rhannau 1 a 2 - tystiolaeth y Gweinidog

35. Ynglŷn â Rhan 1 o'r Mesur arfaethedig, dywedodd y Gweinidog:

“... the present legal framework is the Best Value regime and, clearly, practice and policy intent have moved on considerably from the current legal framework. It makes sense that the legal framework should correspond to modern practice.”<sup>48</sup>

36. Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud “one of the big conceptual shifts in this Measure is moving the locus for activity from the local authority as a corporate organism to the services that it provides to citizens”.<sup>49</sup> Dywedodd un o swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wrthon ni fod y newid diwylliant a oedd yn cael ei fabwysiadu yn y Mesur arfaethedig yn golygu “moving beyond questioning whether an organisation is good, bad or indifferent to questioning whether an organisation is actually serving the community’s needs well”.<sup>50</sup>

37. Esboniwyd hefyd nad yw dull cyfundrefn y gwerth gorau yn edrych i weld pa mor dda y mae awdurdod yn gwasanaethu pobl wrth bwysu a mesur perfformiad da.<sup>51</sup> Mae'r Mesur arfaethedig yn ceisio goresgyn hyn, er enghraifft drwy'r agweddau ar welliant y mae'n eu cyflwyno. Mae'r rhain yn ymwneud yn fwy â “serving citizens” ac yn rhoi hyblygrwydd i'r awdurdodau i benderfynu beth yn union yw eu blaenoriaethau o fewn y set honno o agweddau, gan eu rhyddhau rhag gorfod mynegi popeth mewn termau rhifiadol, wedi'u seilio ar dargedau.<sup>52</sup>

38. O ran lefel y manylder a geir yn y Mesur arfaethedig, roedd y Gweinidog yn anghytuno yn gyffredinol â'r farn a fynegwyd gan rai o'r rhanddeiliaid ei fod yn rhy fanwl ac yn rhy orchmynnol.<sup>53</sup> Dadleuai'r Gweinidog fod i'r ddeddfwriaeth amcan penodol a bod y manylion yn rhoi dealltwriaeth i unigolion o'r hyn y mae'n ofynnol iddyn nhw ei wneud o dan y Mesur arfaethedig<sup>54</sup>, gan ddod â “clarity to its intent”.<sup>55</sup>

39. Ynglŷn â Rhan 2 o'r Mesur arfaethedig, esboniodd y Gweinidog y bydd y Mesur arfaethedig yn golygu y bydd y strategaeth gymunedol yn gofyn bod camau'n cael eu cymryd ac “as part of this, it will indicate not only what the vision is, but it will also place an expectation that the actions to deliver the vision be outlined. Those actions will then form part of the improvement regime”.<sup>56</sup> Oherwydd hyn, meddai'r Gweinidog:

<sup>48</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [7], 4 Tachwedd 2008

<sup>49</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [20], 4 Tachwedd 2008

<sup>50</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [17], 4 Tachwedd 2008

<sup>51</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [15], 4 Tachwedd 2008

<sup>52</sup> Ibid

<sup>53</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [96], 2 Rhagfyr 2008

<sup>54</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [94], 2 Rhagfyr 2008

<sup>55</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [96], 2 Rhagfyr 2008

<sup>56</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [107], 4 Tachwedd 2008



“... for the first time, there will be an organic link between the actions required to deliver the community strategy and the wider improvement agenda, which all of this proposed Measure is intended to achieve. Currently, the Best Value regime, the Wales programme for improvement, is in one piece of legislation, and the community strategies are in a different piece of legislation; they operate in a different legislative framework. This will bring them together under one umbrella and will also create the link between improvement and activities underpinning the community strategy.”<sup>57</sup>

### *Rhannau 1 a 2 - Ein barn ni*

40. Mae'r dystiolaeth yn amlygu consensws cyffredinol bod angen y Mesur arfaethedig. Rydym yn nodi bod y Mesur arfaethedig yn ceisio gosod elfennau sydd eisoes yn bodoli yn y cyfundrefnau presennol ar gyfer gwella a chynlluniau cymunedol mewn un darn o ddeddfwriaeth, a bod hyn, mewn perthynas â Rhan 1, yn ffurfioli'r cynnydd sydd wedi digwydd yn awdurdodau gwella Cymru ers i Ddeddfau Llywodraeth Leol 1999 a 2000 gael eu cyflwyno. Oherwydd hynny, o gofio cryfder y dystiolaeth, rydym yn cytuno bod angen y ddeddfwriaeth.

41. Rydym yn credu bod llawer o'r rhanddeiliaid wedi dangos y posibilrwydd y daw canlyniadau cadarnhaol o'r Mesur arfaethedig, yn enwedig mewn perthynas â'r canlynol: rhoi pŵer i awdurdodau gwella Cymru i ehangu eu cwmpas i arloesi wrth geisio gwella; ehangu cyfrifoldebau'r awdurdodau lleol ynglŷn â chynlluniau cymunedol a chynnwys partneriaid cynllunio cymunedol. Wedi nodi'r safbwyntiau hyn, a'r dystiolaeth ehangach, rydym yn cytuno bod y Mesur arfaethedig yn darparu'r fframwaith iawn i sicrhau gwelliant parhaus (Rhan 1) a chynllunio cymunedol effeithiol (Rhan 2), ac i oresgyn diffygion a gwendidau sydd wedi'u nodi yn y cyfundrefnau presennol.

42. Rydym yn cydnabod bod y Mesur arfaethedig yn cysylltu gwelliant yn Rhan 1 â chynlluniau cymunedol effeithiol yn Rhan 2. Er hynny, gan fod y mater hwn mor bwysig, rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog roi rhagor o ystyriaeth i sut y gallai'r Mesur arfaethedig gael ei ddiwygio i gryfhau'r cysylltiad hwn.

43. Rydym yn cydnabod y dystiolaeth a roddwyd i ategu pwyslais y Mesur arfaethedig ar wella parhaus mewn gwasanaethau a swyddogaethau yn hytrach na dod o hyd i risg o fethu. Rydyn ninnau o blaid mynd ati fel hyn.

44. Rydym yn nodi pryderon nifer o'r rhanddeiliaid ynghylch lefel y manylion a'r gorchmynion yn y Mesur arfaethedig a'r diffyg hyblygrwydd a allai godi yn sgil hynny. Er hynny, rydyn ni hefyd yn nodi'r dadleuon a gynigiwyd gan y Gweinidog sef bod y manylion yn egluro'r bwriad ac yn sicrhau dealltwriaeth glir o ofynion y ddeddfwriaeth.

---

<sup>57</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [107], 4 Tachwedd 2008

45. Rydym wedi trafod yr angen am fanylion a gorchmynion wrth fwrw ymlaen â newid ac wrth roi sylw i ddiffygion y gyfundrefn bresennol, y mae'r Mesur arfaethedig yn ceisio'u datrys. Ymhellach, rydym wedi ystyried a fyddai canllawiau yn ddigon i wireddu'r bwriadau hyn.

46. At ei gilydd, does gennyn ni ddim gwrthwynebiad i lefel y manylion a'r gorchmynion a gynhwyswyd yn y Mesur arfaethedig. Serch hynny, oherwydd rhai o'r pryderon a fynegwyd gan rai o'r rhanddeiliaid rydym o'r farn y byddai'n ddoeth pe bai'r Gweinidog yn adolygu lefel y manylion yn y Mesur arfaethedig gan gynnig gwelliannau priodol lle bo o'r farn bod hynny'n synhwyrol.

47. Rydym yn cytuno â'r rhanddeiliaid fod angen canllawiau amserol o ansawdd dda i gyd-fynd â rhoi'r Mesur arfaethedig ar waith ac rydym yn argymhell y dylai'r canllawiau hynny gael eu datblygu drwy ymgynghori â'r rhanddeiliaid allweddol.

48. Mae ein barn ni ar rai adrannau penodol yn y Mesur arfaethedig wedi'i nodi yn adran 4.

#### 4. Sylwadau penodol ar yr adrannau

##### Adrannau 1-8: Gwella, dangosyddion perfformiad a safonau perfformiad

###### *Y cefndir*

49. Mae adrannau 1 i 8 o'r Mesur arfaethedig yn diffinio awdurdodau gwella ac yn nodi sut y maen nhw i roi sylw i agenda gwella.

50. Mae adran 1 yn diffinio awdurdodau gwella Cymru fel y cynghorau sir a'r cynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau'r parciau cenedlaethol a'r awdurdodau tân ac achub yng Nghymru. Mae'r awdurdodau hyn o dan ddyletswydd (o dan adran 2) i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer eu swyddogaethau. Wrth wneud hynny, rhaid i awdurdod gwella roi sylw i'r angen i wella'r modd yr arferir ei swyddogaethau mewn perthynas â saith agwedd ar wella. Saith agwedd gwella yw effeithiolrwydd strategol; ansawdd gwasanaethau; argaeledd gwasanaethau; tegwch; cynaliadwyedd; effeithlonrwydd; ac arloesi, a gall y rhain gael eu diwygio drwy orchymyn (adran 7). Ceir diffiniadau o bob agwedd ar wella yn adran 4.

51. O dan adran 3, mae'n ofynnol i'r awdurdodau gwella, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, osod amcanion gwella iddyn nhw eu hunain ynglŷn â gwella'r modd y maen nhw'n arfer eu swyddogaethau yn ystod y flwyddyn honno a gwneud trefniadau i gyrraedd yr amcanion hynny. Rhaid i bob amcan gwella gael ei lunio mewn modd sy'n sicrhau gwelliant mewn o leiaf un o'r saith agwedd ar wella.

52. Mae adran 8 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i ragnodi dangosyddion perfformiad y caiff perfformiad awdurdod gwella ei fesur drwy gyfeirio atyn nhw, a safonau perfformiad mewn perthynas â'r dangosyddion perfformiad y maen nhw'n eu nodi. Mae dyletswydd yn cael ei gosod ar yr awdurdodau gwella hefyd i wneud trefniadau i arfer eu swyddogaethau fel bod unrhyw safon perfformiad gymwys yn cael ei chyrraedd.

###### *Awdurdodau gwella - tystiolaeth y rhanddeiliaid*

53. Gofynnodd nifer o sefydliadau pam nad oedd Rhan 1 o'r Mesur arfaethedig yn cynnwys cyrff cyhoeddus eraill, megis y gwasanaeth iechyd.<sup>58</sup>

###### *Awdurdodau gwella - Ein barn ni*

54. Er ein bod yn nodi pryderon rhai sefydliadau nad yw'r Mesur arfaethedig yn cynnwys yr holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru, rydym yn ymwybodol bod cwmpas y Mesur arfaethedig wedi'i gyfyngu gan hyd a lled y cymhwysedd deddfwriaethol sy'n cael ei roi gan Fater 12.5 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

<sup>58</sup> Er enghraifft, Cofnod y Trafodion, paragraff [9], 11 Tachwedd 2008

*Y ddyletswydd gyffredinol mewn perthynas â gwella - tystiolaeth y rhanddeiliaid*

55. Cafodd y ddyletswydd gyffredinol mewn perthynas â gwella ei chroesawu gan y rhanddeiliaid.

56. Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol:

“I think that the best part of the Measure ... is the single question that I am required to answer for every authority, every year, as to whether the authority has arrangements in place to secure continuous improvements. That is a fantastically good question, which I intend to answer every year. I think that that will focus attention on what matters.”<sup>59</sup>

57. Er hynny, awgrymodd mai anfoddhaol yw ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau lleol “merely to put in place arrangements to secure continuous improvement” ac y gallai hyn danseilio “the whole point of the legislation”.<sup>60</sup> Gan hynny, roedd yr Archwilydd Cyffredinol o'r farn ei bod yn hanfodol diwygio adran 2 i'w gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau sefydlu “effective arrangements” oherwydd:

“... the word ‘arrangements’ is construed narrowly, to refer to the existence of arrangements, and if that same interpretation were applied to the Measure, an authority could comply completely by writing reports and filling in forms in the right order on the right dates, without delivering any actual improvements. It would be open to the authority to argue that it had complied, because the word ‘effective’ is not included in section 2. Inserting the word in section 2 disposes of the problem, does no harm to anyone and makes the Measure much more effective.”<sup>61</sup>

58. O’u holi, cytunodd Estyn ac AGGCC â’r farn hon.<sup>62</sup>

*Y ddyletswydd gyffredinol mewn perthynas â gwella - tystiolaeth y Gweinidog*

59. Wrth ymateb i'r newid yn adran 1 a awgrymwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, nododd y Gweinidog “it is important that the legislation strives to be effective” ond “ ... we must be realistic that certain circumstances may arise and that factors beyond the control of the local authority may work against the proposed Measure being effective”.<sup>63</sup>

<sup>59</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [85], 11 Tachwedd 2008

<sup>60</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig LG2

<sup>61</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [89], 11 Tachwedd 2008.

<sup>62</sup> Cofnod y Trafodion, paragraffau [70-74], 25 Tachwedd 2008

<sup>63</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [98], 2 Rhagfyr 2008.

*Y ddyletswydd gyffredinol mewn perthynas â gwella - ein barn ni*

60. Rydym yn rhannu barn yr Archwilydd Cyffredinol y byddai'n well gosod dyletswydd ar yr awdurdodau gwella i sefydlu 'trefniadau effeithiol' er mwyn sicrhau gwelliant parhaus. Rydym o'r farn y bydd hynny'n annog yr awdurdodau gwella i ganolbwyntio ar y mathau o drefniadau y dylen nhw eu cyflwyno a rhoi ffocws mwy priodol i'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer ei waith yntau. Gan hynny, rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i sicrhau bod rhaid i awdurdod gwella wneud 'trefniadau effeithiol' i sicrhau gwelliant parhaus yn y modd y mae'n arfer ei swyddogaethau.

*Gwella a'r saith agwedd ar wella - tystiolaeth y rhanddeiliaid*

61. At ei gilydd, roedd y tystion o blaid y saith agwedd ar wella, er i rai amheunon gael eu mynegi.

62. Dywedodd SOLACE "people welcome the move away from the old three 'Es'"<sup>64</sup> gan ddatgan hyn: "the list of six or seven factors is generally welcomed, largely because it reflects what is happening"<sup>65</sup> ac oherwydd "it focuses the attention on the things that matter."<sup>66</sup>

63. Ym marn Estyn, "the new seven principles helpfully extend the breadth of analysis in some regards" ond "there will need to be guidance and an explanation around how it is intended that they will operate", yn arbennig felly oherwydd er eu bod yn edrych fel set dda o "guiding principles ... there will be tensions between them".<sup>67</sup>

64. Barn AGGCC oedd hyn:

...the seven areas for improvement are a better way of describing what we expect of public services. They are probably more citizen focused and probably also better fit public services, because they give a much clearer emphasis on issues of equity, access and fairness, which are key issues for public services.<sup>68</sup>

65. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam yn gefnogol hefyd, gan ddweud:

"The Council welcomes the attempt to provide clarity on aspects of improvement and how we set and deliver improvement objectives and performance standards. This will support the Council's continued work towards making best use of capacity and our continued

---

<sup>64</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [20], 25 Tachwedd 2008; yn Saesneg roedd y "3E" sef "economy", "efficiency" ac "effectiveness" yn nodwedd ar hen gyfundrefn y gwerth gorau.

<sup>65</sup> Ibid

<sup>66</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [22], 25 Tachwedd 2008

<sup>67</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [76], 25 Tachwedd 2008

<sup>68</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [77], 25 Tachwedd 2008

improvements both in the quality and the availability of services in a variety of ways.”<sup>69</sup>

66. Er gwaethaf y gefnogaeth gyffredinol hon, mynegodd CLILC “strong reservation” ynghylch cynnwys y saith agwedd ar wella “without relevant references and caveats regarding levels of financial investment”<sup>70</sup>, ac roedd hyn yn adlewyrchu barn llawer o’r ymatebwyr yn yr awdurdodau lleol unigol.

67. Aeth CLILC ymlaen i awgrymu y dylai rhagor o feysydd gwella yn ymwneud ag arwain cymunedau a dyletswyddau cynllunio cymunedol gael eu hychwanegu, fel modd i gryfhau’r cysylltiadau rhwng gwella a chynllunio cymunedol yn y Mesur arfaethedig.<sup>71</sup> O’u holi ar y pwynt hwn, cydnabu CLILC “the community leadership process is a difficult concept to define in terms of legislation – and perhaps you could explore that in statutory guidance”.<sup>72</sup>

68. Roedd y Gwasanaethau Tân ac Achub yn “quite ambivalent” ynghych dileu’r “3Es” ond yn teimlo bod gwelliant parhaus yn mynd yn ddyfnach na’r “3Es”.<sup>73</sup>

69. Er hynny, cafodd rhai amheuon eu mynegi am agweddau ar wella. Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot:

“In practice, improvement is inevitably achieved by trading off the items on the list against each other. This seems an unnecessary, onerous, additional burden.”<sup>74</sup>

70. Doedd yr Archwilydd Cyffredinol ddim yn fodlon iawn colli’r “3Es” a hynny am eu bod wedi’u deall yn dda iawn yng nghyd-destun archwilio, arolygu a rheoleiddio.<sup>75</sup> Fe nododd yn arbennig:

“Given the potential for misinterpretations and associations with past regimes, the Assembly Government has chosen this new, complicated formulation, which is not obviously comprehensive. So, for example, economy, which is an important part of sound management, is not explicitly mentioned; that is very strange, because economy means buying well, and it is surely an important part of improvement that authorities should buy more effectively and economically in the future. So, I am not sure that the list is right. If these three terms, which I would prefer, cannot be included the list needs to be included in guidance so that we can change it more easily, as previous witnesses have said in another context. I am not sure that that list will turn out to be the right list.”<sup>76</sup>

---

<sup>69</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG10

<sup>70</sup> Ibid

<sup>71</sup> Ibid

<sup>72</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [19], 11 Tachwedd 2008

<sup>73</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [24], 2 Rhagfyr 2008

<sup>74</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG16

<sup>75</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [91], 11 Tachwedd 2008

<sup>76</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [91], 11 Tachwedd 2008

71. Serch hynny, doedd yr Archwilydd Cyffredinol ddim yn gwrthwynebu'r saith agwedd ar wella, ond nid oedd wedi'i ddarbwylllo "that the list is complete".<sup>77</sup> Roedd hefyd yn credu bod angen rhagor o feddwl ar y diffiniadau o agweddau ar wella a geir yn adran 4 ac, oherwydd hynny, y gallai fod yn fwy buddiol eu cynnwys mewn canllawiau statudol yn hytrach nag yn y Mesur arfaethedig ei hun.<sup>78</sup>

72. O ran pwynt penodol yr Archwilydd Cyffredinol ynghylch cynnwys 'darbodaeth' yn agwedd ar wella, awgrymodd Estyn y gallai hynny gael ei gynnwys drwy gyfrwng canllawiau priodol ar ystyr 'effeithlonrwydd'.<sup>79</sup>

73. Cyflwynodd CLILC achos o blaid diwygio adran 4(2) o'r Mesur arfaethedig fel bod pob diffiniad o'r agweddau ar wella yn cyfeirio, yn ychwanegol at gyfeirio at sut y mae gwasanaethau'n cael eu darparu, at 'the exercise of functions' er mwyn gwella eglurder<sup>80</sup> ac am fod hepgor cyfeiriad o'r fath yn achos rhai o'r diffiniadau fel pe bai'n anwybyddu:

"... the significant impacts that the ways in which authorities exercise their broader functions (i.e. in addition to service delivery) may have on social well-being, sustainable development and efficiency."<sup>81</sup>

74. Roedd y Dr Tom Entwistle hefyd yn amau a ddylai'r agweddau ar wella gael eu cynnwys ar wyneb y Mesur arfaethedig yn hytrach nag mewn canllawiau. Dywedodd hyn:

"... while some of the 'new' perspectives on improvement are helpful ... I do not think there is much merit in broadening out the definition of improvement to the extent proposed in section 3. More detailed advice on the content of improvement can surely be covered in subsequent guidance."<sup>82</sup>

### *Gwella a'r saith agwedd ar wella - tystiolaeth y Gweinidog*

75. Mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dweud bod y Mesur arfaethedig yn ymestyn:

dyletswyddau awdurdodau mewn perthynas â sicrhau gwelliannau, gan bwysleisio yn arbennig bod gwella llesiant, cynaliadwyedd a thegwch cymdeithasol yn lleol yr un mor ddilys â gwella allbynnau mesuredig gwasanaethau neu eu heffeithlonrwydd.<sup>83</sup>

<sup>77</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [93], 11 Tachwedd 2008

<sup>78</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG2

<sup>79</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [79], 25 Tachwedd 2008

<sup>80</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [35], 11 Tachwedd 2008

<sup>81</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG1

<sup>82</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG23

<sup>83</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.12

76. Esboniodd y Gweinidog fod y saith agwedd ar wella (yn hytrach na'r hen agweddau, sef darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd) a gynhwyswyd yn y Mesur arfaethedig wedi dod:

“... from the experience of the transition from the Best Value regime to the Wales programme for improvement, and our reflections on how the Wales programme for improvement was operating. It was an iterative process of recognising the weaknesses of the Best Value regime, the emerging strengths of the Wales programme for improvement, and trying to capture those lessons in legislation.”<sup>84</sup>

77. Yn ei farn e, byddai adrannau 2-4 o'r Mesur arfaethedig yn cael eu deall yn iawn.<sup>85</sup>

78. Esboniodd un o swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd fod canllawiau Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella ar gyfer 2005 yn cynnwys rhestr debyg o agweddau ar wella, a oedd wedi'i datblygu drwy gydweithio'n agos â CLLC a'r awdurdodau. Credid bod y rhestr yn y Mesur arfaethedig yn “fairly comprehensive”.<sup>86</sup> Esboniwyd hefyd fod modd ychwanegu at y saith agwedd ar wella, eu dileu neu eu haddasu<sup>87</sup> (gan ddefnyddio pwerau a geir yn adran 7 o'r Mesur arfaethedig).

79. Pan ofynnwyd am ei farn a fyddai'n well cynnwys yr agweddau ar wella mewn canllawiau, dywedodd y Gweinidog fod angen cynnwys y rhestr yn y Mesur arfaethedig gan ei bod yn rhoi diffiniad clir o ystyr gwella a chan ei bod “at the heart of what we are proposing”.<sup>88</sup>

80. O ran sylwadau CLLC ynghylch cynnwys arweinyddiaeth gymunedol fel agwedd arall ar wella, mynegodd y Gweinidog y farn hon:

“... if you look at the list, you can see that the improvement objectives ... have a qualitative content to them—whereas community leadership, in many respects, is a service ... Community leadership is more of a function than a qualitative measure, and the list, from (a) to (g), includes that qualitative effect, and I do not believe that community leadership would sit easily with that list.”<sup>89</sup>

*Gwella a'r saith agwedd ar wella - ein barn ni*

81. Er i rai o'r tystion amau'r saith agwedd ar wella, a'r ffaith eu bod wedi'u cynnwys ar wyneb y Mesur arfaethedig, rydym yn nodi eu bod wedi cael eu croesawu at ei gilydd.

82. Rydym o'r farn mai cynnwys yr agweddau ar wella a'u diffiniadau ar wyneb Mesur arfaethedig, yn hytrach nag mewn canllawiau, yw'r

<sup>84</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [26], 4 Tachwedd 2008

<sup>85</sup> Cofnod y Trafodion, paragraffau [100 a102], 2 Rhagfyr 2008

<sup>86</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [27], 4 Tachwedd 2008

<sup>87</sup> Ibid

<sup>88</sup> Cofnod y Trafodion, paragraffau [106], 2 Rhagfyr 2008

<sup>89</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [104], 2 Rhagfyr 2008



ffordd gywir i fynd ati am fod hynny'n mynegi'r bwriad yn eglur i'r rhanddeiliaid ynglŷn â'r agenda gwella, ac am fod modd ychwanegu at hynny â chanllawiau. Wrth ddod i'r farn hon, rydym yn ymwybodol hefyd fod y Mesur arfaethedig yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i newid y saith agwedd ar wella a'u diffiniadau drwy gyfrwng gorchymyn.

83. Rydym yn nodi bod y mwyafrif o'r rhanddeiliaid o blaid rhoi'r saith agwedd ar wella yn lle'r hen '3Es'.

84. Rydym yn cytuno â'r Gweinidog na fyddai'n briodol cynnwys agwedd arall ar wella ynglŷn ag arweinyddiaeth gymunedol a chynllunio. Serch hynny, rydym yn cydnabod mor bwysig yw sicrhau bod yna gysylltiadau cryf rhwng gwella, arweinyddiaeth gymunedol a chynllunio ac yn argymhell bod sylw'n cael ei roi i'r mater hwn mewn canllawiau fel yr awgrymwyd gan CLILC.

85. Er nad ydym o'r farn bod angen cynnwys 'darbodaeth' fel agwedd arall ar wella, rydyn ni wedi nodi mor bwysig yw'r term ym marn yr Archwilydd Cyffredinol ac yn argymhell y dylai'r canllawiau a fydd yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth esbonio sut mae cysyniad darbodaeth yn cydweddu â'r saith agwedd ar wella sydd yn y Mesur arfaethedig.

86. Gan hynny, rydym yn fodlon ar y saith agwedd ar wella sydd wedi'u rhestru yn adran 4 o'r Mesur arfaethedig.

87. O ran y diffiniadau yn adran 4(2) o'r Mesur arfaethedig, rydym yn cytuno â CLILC y dylen nhw fod yn gyson yn y ffordd y maen nhw wedi'u drafftio gan gyfeirio at 'arfer swyddogaethau'. Gan hynny, rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog ystyried cyflwyno gwelliannau i roi newidiadau o'r fath ar waith.

#### *Dangosyddion a safonau perfformiad - tystiolaeth y rhanddeiliaid*

88. Roedd sylwadau'r rhanddeiliaid yn cynnwys rhywfaint o fyfyrddod ar ddarpariaethau yn y Mesur arfaethedig mewn perthynas â dangosyddion perfformiad ond rhywfaint hefyd ar y Fframwaith Rheoli Perfformiad, sef y dull presennol ar gyfer cyflwyno'r wybodaeth y mae'r dangosyddion perfformiad yn ei darparu. Er enghraifft, er bod ganddo rai amheuan am y fframwaith mesur perfformiad, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol nad oedd y rhain yn ymwneud â sail gyfreithiol y fframwaith "but rather how it has been implemented in practice".<sup>90</sup>

89. Gwnaeth rhai o'r rhanddeiliaid bwyntiau am ddatblygu dangosyddion perfformiad. Er enghraifft, awgrymodd AGGCC y dylai pennu safonau cenedlaethol wella natur allblyg y fframwaith gwella, er eu bod yn pwysleisio bod rhaid i'r rhain gael eu datblygu mewn cydweithrediad ac nid bod mor gyffredinol nes eu bod yn golygu ychydig yn unig neu ddim byd.<sup>91</sup> Yn

<sup>90</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [99], 11 Tachwedd 2008

<sup>91</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG6

yr un modd, pwysleisiodd SOLACE fod angen cadw dangosyddion perfformiad ar lefel gymesur a hydrin.<sup>92</sup> Dywedodd SOLACE hefyd fod angen mwy o drafod ynghylch y pwerau a roddir i'r Gweinidogion yn adran 8 i bennu dangosyddion perfformiad a safonau perfformiad.<sup>93</sup>

90. Mae adran 8(3) o'r Mesur arfaethedig yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru, cyn pennu dangosyddion a safonau perfformiad, ymgynghori â'r awdurdodau gwella o dan sylw, ac unrhyw bersonau eraill sy'n addas yn eu barn nhw. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi awgrymu y dylai adran 8(3)(b) gael ei diwygio i'w gwneud yn ofynnol bod rhaid ymgynghori ag yntau ar sail statudol. Dywedodd hyn:

“... I have a power to set performance standard measures—it is not one that I have chosen to use—so that is a formal reason why I think that if the Assembly Government wishes to do anything in this regard it should be required to consult me to avoid a clash of that kind. It is not a major point from my point of view; I daresay that the Assembly Government would consult me anyhow. However, it should be required to do so formally.”<sup>94</sup>

#### *Safonau a dangosyddion perfformiad- tystiolaeth y Gweinidog*

91. O ran adran 8 o'r Mesur arfaethedig, esboniodd y Gweinidog:

“... performance indicators will obviously include some quantitative measures such as we have in the performance framework at the moment, but those could be elaborated by other performance indicators that may not be quite as quantifiable in the same way. Underpinning this, in addition to identifying areas by which performance would be measured ... there is an attempt to indicate that we should have standards against that performance.

So, this tries to cover a broader range of activities in order to capture the quantifiable data, but it also tries to capture the personal experience, to set standards against that and to expect the local authorities to report on those parameters. Those are just the standards that we prescribe, but local authorities may have particular local circumstances, and this does not preclude them from developing standards that they think are relevant to improving performance in a local context.”<sup>95</sup>

#### *Dangosyddion a safonau perfformiad - ein barn ni*

92. Rydym yn fodlon yn gyffredinol ar ddarpariaethau adran 8 ynghylch dangosyddion a safonau perfformiad.

---

<sup>92</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG12

<sup>93</sup> Ibid

<sup>94</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [95], 11 Tachwedd 2008

<sup>95</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [32-3], 4 Tachwedd 2008

93. Wnaethon ni ddim holi'r Gweinidog am y gwelliant a awgrymwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol i adran 8(3), sef y dylid ymgynghori'n statudol ag ef cyn i Weinidogion Cymru bennu dangosyddion a safonau perfformiad. Er hynny, rydym o'r farn bod yna rinwedd yn y cynnig ac rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog ystyried cyflwyno gwelliant priodol i sicrhau'r newid hwn.

## Adrannau 9-12: Cydlafurio a gwella

### *Y cefndir*

94. Mae adran 9 yn rhoi pwerau bras i awdurdodau gwella Cymru i'w galluogi i gydlafurio â'i gilydd ac â chyrff eraill er mwyn cyflawni neu hwyluso'r dyletswyddau o dan adrannau 2(1), 3(2) ac 8(7) o'r Mesur arfaethedig.

95. Mae adran 11 yn manylu ar beth yw pwerau awdurdodau gwella Cymru i gydlafurio ac mae adran 12 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gwella Cymru ystyried a fyddai arfer unrhyw rai o'u pwerau cydlafurio yn eu helpu i gyflawni eu dyletswyddau o dan adrannau 2(1), 3(2) ac 8(7) o'r Mesur arfaethedig.

### *Y pŵer i gydlafurio - tystiolaeth y rhanddeiliaid*

96. Cafwyd cefnogaeth eang i'r ddarpariaeth yn adran 9 o'r Mesur arfaethedig. Roedd llawer o'r tystion yn argyhoeddedig bod y pŵer galluogi a ddarperir yn ddigon iddyn nhw gydlafurio ac y byddai dyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol iddyn nhw gydlafurio yn anymarferol ac yn ddiangen.

97. Yn ôl CLILC, "failure to collaborate at the current time is a failure in community leadership"<sup>96</sup> a "we only need a power to do it: we do not need a duty".<sup>97</sup> Yn yr un modd, roedd SOLACE yn cytuno â'r pŵer galluogi:

"We think that that is a better way of going about it. Again, it reflects what is happening on the ground, but it gives it much more flexibility in terms of how we set about this. It is important, when collaborating, that there is mutual trust and that there is a business case to underpin the case for collaboration ... The duty to collaborate would, I think—I am reflecting very much the views of the society now—be found to be too heavy and blunt an instrument for us to accept really."<sup>98</sup>

98. Roedd AGGCC wedi'u hargyhoeddi bod cydlafurio yn agwedd bwysig ar gyflwyno gwell gwasanaethau, ond gan nodi hefyd:

"There is a danger of thinking that you should do everything collaboratively. It may well be that it is better for the local authority

<sup>96</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [40], 11 Tachwedd 2008

<sup>97</sup> Ibid

<sup>98</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [24], 25 Tachwedd 2008

to deliver some services itself; other services may be better delivered on a regional basis, and this proposed Measure would support that.”<sup>99</sup>

99. Er hynny, roedd AGGCC yn teimlo mai mater i’w drafod oedd ai dyletswydd ynteu pŵer galluogi fyddai hyn.<sup>100</sup>

*Y pŵer i gydlafurio - tystiolaeth y Gweinidog*

100. Esboniodd y Gweinidog pam roedd y pŵer i gydlafurio wedi’i ddrafftio fel pŵer galluogi yn hytrach nag fel dyletswydd:

“You might be keen to collaborate, but someone else might say that they do not want to collaborate with you. Therefore, it cannot be a duty, because you may not have someone to collaborate with. We are suggesting that local authorities should look at what they are doing on a regular basis. If collaboration is a way of improving services, whatever legal obstacles are in the way of delivering that collaboration should be removed, and local authorities should actively seek partners to collaborate with to improve the services.”<sup>101</sup>

ac

“... in circumstances where there is a serious risk of service failure and people are not willing to collaborate, there is a ministerial power to direct collaboration.”<sup>102</sup>

*Y pŵer i gydlafurio - ein barn ni*

101. Rydym yn cydnabod arfer presennol yr awdurdodau gwella o gydlafurio ac yn cytuno y gallai dyletswydd ar yr awdurdodau i gydlafurio fod yn anymarferol. Rydym yn cydnabod bod y pŵer galluogi fel y’i darperir yn adran 9 o’r Mesur arfaethedig yn ceisio cryfhau’r arfer presennol o gydlafurio a’i fod wedi’i groesawu. I’r perwyl hwn, rydym yn fodlon ar y pŵer galluogi y darperir ar ei gyfer yn adran 9.

**Adrannau 13-15: Cynllunio gwelliannau a gwybodaeth am welliannau**

*Y cefndir*

102. Mae adran 13 yn pennu dyletswyddau awdurdodau gwella Cymru o ran trefniadau ar gyfer casglu gwybodaeth sy’n ymwneud â pherfformiad. Mae adran 14 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gwella Cymru ddefnyddio’r wybodaeth y maen nhw’n ei chasglu o dan adran 13 i fesur eu perfformiad o’i gymharu â pherfformiad y flwyddyn cynt ac, i’r graddau y mae hynny’n ymarferol, â pherfformiad awdurdodau gwella eraill ac awdurdodau cyhoeddus eraill.

<sup>99</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [85], 25 Tachwedd 2008

<sup>100</sup> Ibid

<sup>101</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [42], 4 Tachwedd 2008

<sup>102</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [44], 4 Tachwedd 2008

103. Mae adran 15 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod gwella wneud trefniadau i gyhoeddi gwybodaeth benodedig ynghylch ei berfformiad ar gyfer y flwyddyn ariannol. Mae'r Mesur arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i'r wybodaeth hon gael ei chyhoeddi gan yr awdurdod perthnasol cyn 31 Hydref yn union ar ôl y flwyddyn ariannol y mae'n cyfeirio ati. Mae adran 15(6) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod gwella gyhoeddi 'cynllun gwella' sy'n nodi ei gynlluniau ar gyfer cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 2(1), 3(2) ac 8(7) ar gyfer blwyddyn ariannol ac, os bydd yr awdurdod yn credu bod hynny'n addas, ei gynlluniau ar gyfer y blynyddoedd dilynol.

*Fframwaith ar gyfer casglu gwybodaeth, ei defnyddio a'i chyhoeddi - tystiolaeth y rhanddeiliaid*

104. Er bod ganddyn nhw rai pryderon ynghylch agweddau penodol, dywedodd CLILC:

“The WLGA and local authorities fully recognise the importance of robust, comprehensive and accessible performance information. Performance information is important for driving improvement through organisational management arrangements; for providing accountability and assurance around the improvement agenda both internally and externally; and engaging with communities and supporting their direct involvement in scoping and shaping improvement by ‘giving account’ through a range of media.

The WLGA sees the provisions in sections 13 to 15 of the proposed Measure as providing a framework that is broadly supportive of these requirements and aspirations.”<sup>103</sup>

105. Yn gyffredinol rhoddodd yr awdurdodau lleol groeso i'r ymagwedd sy'n cael ei harddel, a dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam eu bod yn cefnogi “the clarification and increased flexibility around using and publishing performance information and the Improvement Plan”, gan nodi mor bwysig yw ymgynghori ar y dangosyddion a'r safonau perfformiad.<sup>104</sup>

106. Soniodd sawl rhanddeiliad mor bwysig yw hi fod yr awdurdodau'n defnyddio gwybodaeth am berfformiad yn effeithiol i reoli eu gwasanaethau ac ymgysylltu â'r rhanddeiliaid a'r dinasyddion er mwyn iddyn nhw rannu dealltwriaeth o'u hamcanion a'u cyraeddiadau.

107. Er bod ganddo rai amheuan am y fframwaith mesur perfformiad, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol nad oedd y rheiny'n ymwneud â'i “legal basis but rather how it has been implemented in practice”.<sup>105</sup>

---

<sup>103</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG1

<sup>104</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG10

<sup>105</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [99], 11 Tachwedd 2008

108. Roedd Estyn ac AGGCC o'r farn bod y Mesur arfaethedig yn sail gadarn ar gyfer datblygu'r fframwaith cywir i reoli perfformiad a bod y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd wedi'i gynnwys ar wyneb y Mesur arfaethedig a'r hyn a gâi ei gynnwys mewn canllawiau yn weddol gywir.<sup>106</sup>

109. O ran mater penodol dangosyddion a safonau perfformiad hunanosodedig yn adran 13, mynegodd y Dr Tom Entwistle rybudd:

“... if you give organisations the freedom to come up with their own indicators, then it is extraordinarily difficult for regulators to make any kind of judgment about whether the organisations have met their targets or whether the indicators are reliable.”<sup>107</sup>

*Fframwaith ar gyfer casglu gwybodaeth, ei defnyddio a'i chyhoeddi - tystiolaeth y Gweinidog*

110. Mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cynulliad Cymru'n dweud bod y Mesur arfaethedig yn caniatáu i'r awdurdodau gwella “ymestyn cwrpas y defnydd a wneir o ddata perfformiad er mwyn rhoi gwybod i ddinasyddion a chymunedau am y lefelau o wasanaeth y maent yn eu darparu”.<sup>108</sup> Wrth gael ei holi, dywedodd y Gweinidog wrthon ni y byddai'r Mesur arfaethedig yn darparu “a clear national framework for measuring performance across all improvement authorities in Wales”.<sup>109</sup>

111. O ran diben dangosyddion a safonau perfformiad hunanosodedig, dywedodd y Gweinidog:

“There is a national context, and it is important that local government delivers national priorities, because we, as an Assembly Government, do not deliver many services ourselves. Many of the policies that we, as an Assembly Government, set can be delivered only through partners or organisations, such as local government. Therefore, there is a national context to all of this, but there are specific local circumstances and we and local authorities need to have the flexibility to deliver on the national front and to reflect local circumstances. That is the whole essence of local democracy.”<sup>110</sup>

*Fframwaith ar gyfer casglu gwybodaeth, ei defnyddio a'i chyhoeddi - ein barn ni*

**112. Yn gyffredinol, rydym o'r farn bod y darpariaethau ar gyfer casglu gwybodaeth, ei defnyddio a'i chyhoeddi yn adrannau 13 i 15 o'r Mesur arfaethedig yn briodol yn fras. Mae rhai o agweddau penodol y fframwaith yn cael eu hystyried ym mharagraffau 113 i 147 isod.**

<sup>106</sup> Cofnod y Trafodion, paragraffau [88-89], 25 Tachwedd 2008

<sup>107</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [155], 25 Tachwedd 2008

<sup>108</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.12

<sup>109</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [109], 2 Rhagfyr 2008

<sup>110</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [35], 4 Tachwedd 2008

### *Cymharu perfformiad - tystiolaeth y rhanddeiliaid*

113. O ran y ddyletswydd i gymharu perfformiad yn adran 14, dywedodd CLILC “it is questionable whether it is necessary to impose a duty to perform an activity that authorities already undertake as a matter of course in business and performance analysis”<sup>111</sup> a hefyd “the view of local government is that you do not need to put legislative frameworks in place to enforce what is already happening”.<sup>112</sup> Cafodd teimladau tebyg eu mynegi gan SOLACE<sup>113</sup> a’r Gwasanaeth Tân ac Achub.<sup>114</sup>

114. Nododd CLILC “the age-old issue in Wales is comparing like for like”; dull pur fras yw edrych ar ddangosyddion perfformiad yn unig a “you need the full picture and the full detail of the communities that authorities are serving”.<sup>115</sup> O ganlyniad i hynny, “a comparison would need to be much broader than just comparing performance information; it needs to compare the wider context of the communities in which those authorities operate”.<sup>116</sup>

115. Serch hynny, rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol groeso i’r ffaith bod y Mesur arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i’r awdurdodau lleol roi sylw i gymariaethau ac er bod pob awdurdod lleol yn unigryw ac er bod ganddyn nhw hyblygrwydd o ran sut i wneud pethau, nid oedd yn teimlo bod hynny’n “reason for not thinking about comparisons”.<sup>117</sup> Roedd yn teimlo hefyd y dylid rhoi sylw i ddilysrwydd cymariaethau drwy gyfrwng “guidance, if at all”<sup>118</sup> a phe bai gwybodaeth gymaradwy yn cael ei dehongli’n ofalus y gallai fod yn “really useful, and it is a mistake to try to run a local authority without using that information.”<sup>119</sup>

116. Rhoddodd Estyn groeso i’r ddyletswydd sy’n cael ei gosod ar yr awdurdodau i gymharu eu perfformiad dros amser a’i gymharu ag awdurdodau eraill, gan nodi hyn: “benchmarking is a very powerful driver for improvement and enables authorities to identify and share good practice”.<sup>120</sup>

### *Cymharu perfformiad - barn y Gweinidog*

117. Dywedodd y Gweinidog mai ymarfer mewn meincnodi perfformiad yn y bôn yw’r ddyletswydd ar yr awdurdodau gwella i gymharu perfformiad<sup>121</sup> a’i bod wedi’i chynnwys oherwydd “the purpose of the legislation is to be as comprehensive as possible”.<sup>122</sup> Ychwanegodd un o swyddogion Llywodraeth

<sup>111</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG1

<sup>112</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [42], 11 Tachwedd 2008

<sup>113</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [30], 25 Tachwedd 2008

<sup>114</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [26], 2 Rhagfyr 2008

<sup>115</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [49], 11 Tachwedd 2008

<sup>116</sup> Ibid

<sup>117</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [100 a 102], 11 Tachwedd 2008

<sup>118</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [104], 11 Tachwedd 2008

<sup>119</sup> Ibid

<sup>120</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG5

<sup>121</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [54], 4 Tachwedd 2008

<sup>122</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [56], 4 Tachwedd 2008

Cynulliad Cymru y dylai'r awdurdodau gwella gael eu hannog i ddysgu o'r cymariaethau y byddan nhw'n eu gwneud, ond mai rhywbeth i'w hybu drwy ganllawiau fyddai hynny, yn hytrach na'i gynnwys yn y Mesur arfaethedig.<sup>123</sup>

118. O'i holi ymhellach pam roedd y ddyletswydd i gymharu perfformiad wedi'i chynnwys, dywedodd y Gweinidog "the whole purpose of the legislation is to create a legal framework that will be consistent across Wales" a hynny am fod perfformiad llywodraeth leol ledled Cymru yn amrywiol.<sup>124</sup>

#### *Cymharu perfformiad - ein barn ni*

119. Rydym wedi rhoi ystyriaeth ofalus i sylwadau CLILC ac eraill na ddylai dyletswydd i gymharu perfformiad gael ei chynnwys ar wyneb y Mesur arfaethedig. Er hynny, rydym o'r farn bod cymharu perfformiad yn ddyletswydd werthfawr i'r awdurdodau gwella. Gan hynny, rydym yn cytuno â'r Gweinidog y dylai gael ei chynnwys ar wyneb y Mesur arfaethedig. Wrth wneud hynny, rydym yn credu y bydd hyn yn rhoi arwydd clir o'r hyn sy'n cael ei ddisgwyl oddi wrth bob un o'r awdurdodau gwella nawr ac yn y dyfodol.

#### *Cyhoeddi gwybodaeth am gydlafurio - tystiolaeth y rhanddeiliaid*

120. Wrth sôn yn benodol am adran 15(2)(c) ynghylch cyhoeddi gwybodaeth am gydlafurio, mynegodd CLILC bryder "that it looks fairly bare and blunt" ac roedden nhw'n aneglur beth oedd o dan sylw, faint o fanylion y byddai eu hangen ac yn teimlo hefyd "it could potentially become too burdensome".<sup>125</sup> Roedd CLILC hefyd yn amau gwerth gwybodaeth o'r fath i'r cyhoedd.<sup>126</sup>

#### *Cyhoeddi gwybodaeth am gydlafurio - tystiolaeth y Gweinidog*

121. Tanlinellodd y Gweinidog ddiben casglu gwybodaeth am gydlafurio, sef disgrifio'r newid diwylliant "from a time when local authorities worked within their own geographical boundaries to deliver a service and to deliver improvement".<sup>127</sup> Aeth yn ei flaen i esbonio "it is reasonable that we ask local authorities to detail what they are doing on collaboration, because that is one of the key new elements of driving improvement in Wales".<sup>128</sup> Ychwanegodd fod yr wybodaeth yn tanlinellu pwysigrwydd cydlafurio ac yn sicrhau "some accountability for the collaboration that is taking place".<sup>129</sup>

<sup>123</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [60], 4 Tachwedd 2008

<sup>124</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [106], 2 Rhagfyr 2008

<sup>125</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [62], 11 Tachwedd 2008

<sup>126</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [63], 11 Tachwedd 2008

<sup>127</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [111], 2 Rhagfyr 2008

<sup>128</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [111], 2 Rhagfyr 2008

<sup>129</sup> Ibid



*Cyhoeddi gwybodaeth am gydlafurio - ein barn ni*

122. Rydym yn cydnabod sylwadau CLILC am gyhoeddi gwybodaeth am gydlafurio o dan adran 15(2)(c) ac rydym yn derbyn bod yna berygl, heb ragor o wybodaeth am lefel y manylion y bydd ei hangen, y gallai hyn fynd yn faich. Oherwydd hynny, rydym yn argymhell y dylai eglurhad gael ei gynnig drwy ganllawiau er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth a gyhoeddir yn berthnasol ac yn ystyrlon i'r cyhoedd ac y dylai'r canllawiau hynny gael eu datblygu drwy gydweithredu'n agos â'r awdurdodau gwella.

*31 Hydref yn ddyddiad cau i gyhoeddi gwybodaeth - tystiolaeth y rhanddeiliaid*

123. Roedd rhywfaint o'r dystiolaeth a ddaeth i law yn amau dilysrwydd cynnwys 31 Hydref fel dyddiad yn adran 15(3)(a) o'r Mesur arfaethedig yn hytrach nag mewn canllawiau. Mae'r dyddiad yn adlewyrchu'r dyddiad pryd y mae'n rhaid i wybodaeth benodol a bennir yn y Mesur arfaethedig gael ei chyhoeddi gan yr awdurdodau gwella.

124. Roedd CLILC yn credu mai cynnwys y dyddiad mewn canllawiau statudol fyddai'r opsiwn mwyaf hyblyg, oherwydd "if a fixed date is set in legislation and it does not work out for whatever reason, it takes an awful lot of effort to change it".<sup>130</sup> Cytunodd yr Archwilydd Cyffredinol<sup>131</sup> ac Estyn<sup>132</sup> â'r farn hon, a dywedodd y Gwasanaeth Tân ac Achub y dylid ystyried ei roi mewn canllawiau.<sup>133</sup> Teimlai AGGCC fod dyddiadau cau yn bwysig, er mai mater i'w drafod oedd ai'r Mesur arfaethedig ynteu'r canllawiau oedd y lle gorau i'w cynnwys.<sup>134</sup>

125. O ran y dyddiad ei hun, sef 31 Hydref, (yn hytrach nag a ddylai dyddiad penodol gael ei gynnwys yn y Mesur arfaethedig neu mewn canllawiau) doedd gan CLILC a'r Gwasanaeth Tân ac Achub ddim pryder penodol.<sup>135</sup> <sup>136</sup> Er hynny, nododd yr Archwilydd Cyffredinol y gallai'r dyddiad effeithio ar amserlen ei waith yntau gan y bydd rhaid iddo ysgrifennu 44 o adroddiadau bob blwyddyn rhwng 31 Hydref a 30 Tachwedd<sup>137</sup> ac er y gallai gwybodaeth yr awdurdodau lleol gael ei chyflwyno cyn 31 Hydref, fel dyddiad cau statudol, "that is the one that people will meet and they will probably drift towards that even if they do better to start with".<sup>138</sup>

126. Roedd Estyn ac AGGCC yn teimlo bod y dyddiad, sef 31 Hydref, yn eithaf agos ati. Dywedodd Estyn nad oedd yn bell iawn "from what is

<sup>130</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [56], 11 Tachwedd 2008

<sup>131</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [106], 11 Tachwedd 2008

<sup>132</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [90], 25 Tachwedd 2008

<sup>133</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [30], 2 Rhagfyr 2008

<sup>134</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [93], 25 Tachwedd 2008

<sup>135</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [58], 11 Tachwedd 2008

<sup>136</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [30], 2 Rhagfyr 2008

<sup>137</sup> Mae adran 20(3) o'r Mesur arfaethedig yn darparu bod rhaid i gopïau o adroddiadau archwilio ac adroddiadau asesu a baratoir gan yr Archwilydd Cyffredinol gael eu hanfon at yr awdurdodau gwella a Gweinidogion Cymru erbyn 30 Tachwedd bob blwyddyn.

<sup>138</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [108], 11 Tachwedd 2008

feasible”.<sup>139</sup> Wrth sôn am ofn y byddai'r adroddiadau yn llithro tuag at y dyddiad cau, dywedodd AGGCC:

“The experience so far is that it has been quite difficult for local government to move that date much further forward, not because it is being slow about the process, but because there are practical processes that have to be carried out.”<sup>140</sup>

127. Ar y llaw arall, roedd cynrychiolydd SOLACE, wrth siarad yn bersonol, yn teimlo bod y dyddiad yn un hael, oherwydd erbyn “31 October, the last financial year’s information is beginning to fade into history, and you are worrying ... about the next financial year.”<sup>141</sup>

### *31 Hydref yn ddyddiad cau i gyhoeddi gwybodaeth - tystiolaeth y Gweinidog*

128. Nododd y Gweinidog fod 31 Hydref wedi'i gynnwys fel y dyddiad ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth yn y Mesur arfaethedig oherwydd “to expect a retrospective view within six months of the end of the financial year is not unreasonable, and it sets out a clear expectation”.<sup>142</sup>

129. Er hynny, cydnabu'r Gweinidog farn yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ynglŷn â'i lwyth gwaith rhwng diwedd mis Hydref a diwedd mis Tachwedd, gan ddweud:

“... we would hope that, in practice, not all the improvement authorities will produce their reports by 31 October; hopefully, they will produce them in a steady stream, and the auditor general will therefore be able to respond in a measured way. However, I suppose that it is conceivable that all 28 improvement authorities could submit their plans on the last day of the month, which might create problems for the auditor general.”<sup>143</sup>

130. Daeth i'r casgliad fod hwn yn faes y mae'n fodlon ei ystyried ymhellach ac fe fyddai'n cynnal trafodaethau gyda'r Archwilydd Cyffredinol.<sup>144</sup>

### *31 Hydref yn ddyddiad cau i gyhoeddi gwybodaeth - ein barn ni*

131. Rydym wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r dyddiad, sef 31 Hydref, a gynhwyswyd yn adran 15(3)(a) o'r Mesur arfaethedig. At ei gilydd, rydym o'r farn ei bod yn iawn cynnwys dyddiad ar wyneb y Mesur arfaethedig yn adran 15(3)(a).

<sup>139</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [97], 25 Tachwedd 2008

<sup>140</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [95], 25 Tachwedd 2008

<sup>141</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [36], 25 Tachwedd 2008

<sup>142</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [115], 2 Rhagfyr 2008

<sup>143</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [116], 2 Rhagfyr 2008

<sup>144</sup> Ibid

132. Er hynny, rydym yn cydnabod hefyd farn y rhai sydd wedi awgrymu y bydd yr awdurdodau gwella'n tueddu i weithio tuag at y dyddiad cau penodol, sef 31 Hydref, a allai greu goblygiadau ar gyfer gwaith yr Archwilydd Cyffredinol. Rydym yn nodi bod y Gweinidog wedi cytuno i ailystyried effaith y dyddiadau a gynigiwyd yn y Mesur arfaethedig ar waith yr Archwilydd Cyffredinol. Rydym yn croesawu hyn ac yn credu y dylai'r Gweinidog, wrth wneud hyn, hoelio sylw ar oblygiadau ymarferol newid y dyddiad cau, sef 31 Hydref, yn hytrach na 30 Tachwedd (sydd wedi'i gynnwys yn adran 20(3) o'r Mesur arfaethedig).

133. Gan hynny, rydym yn argymhell y byddai'n briodol i'r Gweinidog ailystyried y trefniadau amserlennu sydd wedi'u nodi yn y Mesur arfaethedig a chynnig gwelliannau priodol er mwyn sicrhau bod y trefniadau amserlennu'n gweithio yn ymarferol.

134. Ni waeth sut y caiff y mater hwn ei ddatrys, rydym yn credu ei bod yn holl-bwysig sicrhau bod canllawiau'n cael eu datblygu a fydd yn esbonio'n llawn sut y bwriedir i'r trefniadau amserlennu weithio yn ymarferol.

#### *Cynlluniau gwella - tystiolaeth y rhanddeiliaid*

135. Awgrymodd CLLC nad oes angen y cyfeiriad at gynllun gwella yn adran 15(6) o'r Mesur arfaethedig, gan ddweud hyn: "a number of authorities argue that a separate improvement plan is increasingly unnecessary as improvement priorities should be mainstreamed and embedded within corporate and service plans".<sup>145</sup> Mynegwyd barn debyg gan SOLACE.<sup>146</sup>

#### *Cynlluniau gwella - tystiolaeth y Gweinidog*

136. O ran y gofyniad yn adran 15(6) fod rhaid cael cynllun gwella, esboniodd y Gweinidog:

"... local authorities will be required to put an improvement plan in place, which is part of the current Wales programme for improvement. The additional steps [yn y Mesur arfaethedig] will measure the implementation of the improvement plan and detail the actions required to deliver improvement, and then the quality assurance that will be delivered by the regulators will give the public much greater insight into what local authorities are doing. By understanding more effectively what is going on, the public will be able to hold their authorities to account, and that will be an important driver of improvement."<sup>147</sup>

---

<sup>145</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG1

<sup>146</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG12

<sup>147</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [12], 4 Tachwedd 2008

137. Ymhelaethodd cynghorydd cyfreithiol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ddbiben y cynllun a'i berthynas ag adran 3 o'r Mesur arfaethedig:

“... the improvement plan ... sets out how the authority ... will discharge its various duties under the Measure. In that respect, it is almost a backward way of looking at it because the improvement plan is just a documentation of how it will achieve its goals and discharge its duties. Section 3(2) of the Measure requires a local authority to make arrangements to secure the attainment of its objectives, for example. Therefore, in that sense, that is the duty to implement what is documented in the improvement plan.”<sup>148</sup>

138. O'i holi am farn CLILC am yr angen am gynllun gwella, dywedodd y Gweinidog:

“Every authority needs to evaluate where it is, and, having done that, it must have a clear, strategic overall improvement plan to outline what it wants to achieve in the next 12 months or two years. If an authority does not have an individual overall strategic plan, there will be a complete lack of focus on its priorities.”<sup>149</sup>

*Cynlluniau gwella - ein barn ni*

**139. Rydym o'r farn bod cynlluniau gwella yn rhan hanfodol o broses wella a'u bod yn ffynhonnell gwybodaeth hawdd ei hadnabod ynghylch pa waith y mae'r awdurdodau yn ei wneud i wella'u gwasanaethau. Rydym yn cytuno â'r Gweinidog y bydd cynllun o'r fath yn helpu i ffocysu a threfnu blaenoriaethau agenda gwella yr awdurdodau. Nid ydym yn cytuno, felly, â'r rhai sydd wedi awgrymu nad oes angen cynlluniau gwella. Oherwydd hynny, rydym o'r farn y dylai'r cyfeiriad at gynlluniau gwella gael ei gadw ar wyneb y Mesur arfaethedig.**

*Gwybodaeth ac ymgysylltu â dinasyddion - tystiolaeth y rhanddeiliaid*

140. Clywsom lawer o dystiolaeth yng nghyd-destun sut y bydd y Mesur arfaethedig yn meithrin ac yn hybu ymgysylltu â dinasyddion. Cafodd y pwynt ei wneud sawl tro mai materion lleol amlwg fel cau ysgolion sy'n ennyn diddordeb dinasyddion yn hytrach na gwybodaeth am berfformiad.

141. Yn ôl CLILC, “people engage with services” ac felly “we must engage with people in a service-focused way”.<sup>150</sup> Awgrymodd y gymdeithas “the use of performance information is an important element ... but the contextual information is also important”. Aeth y gymdeithas ymlaen i esbonio bod hyn yn golygu “asking what people’s improvement priorities are, but also accounting for them” a hynny drwy esbonio pam nad yw targedau wedi'u cyrraedd.<sup>151</sup>

<sup>148</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [77], 4 Tachwedd 2008

<sup>149</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [120], 2 Rhagfyr 2008

<sup>150</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [68], 11 Tachwedd 2008

<sup>151</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [65], 11 Tachwedd 2008

142. Yng nghyd-destun gwybodaeth am berfformiad, nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot “the perceived issue here is how best to encourage residents to engage with the accountability process rather than issues around the use of performance data to inform citizens about levels of service”.<sup>152</sup>

143. Yn ei dystiolaeth e, soniodd y Dr Entwistle am y berthynas rhwng ymgysylltu â dinasyddion a gwybodaeth am berfformiad. Cyfeiriodd at greu “quite a formal process of approach to service improvement”, fel rhywbeth a oedd “quite divorced from the realities that most people will actually be concerned with”.<sup>153</sup> Ychwanegodd hyn: “people will engage, but there have to be issues that they see as being directly relevant to them”. Y casgliad y daeth iddo oedd: “we need to think more carefully about creating circumstances that will genuinely foster engagement ... those are questions for guidance and specific details of how improvement authorities work”.<sup>154</sup>

144. Ar nodyn gwahanol, teimlai Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru fod ymgysylltu â dinasyddion ar goll o Ran 1 o'r Mesur arfaethedig, gan ddweud:

“... it is important that the Measure explicitly includes the integration of citizens and communities into the local government improvement processes, beyond the influencing of the community strategy. As the main expression of ‘organised citizens’ the third sector should be firmly included.”<sup>155</sup>

#### *Gwybodaeth ac ymgysylltu â dinasyddion - tystiolaeth y Gweinidog*

145. Er bod pynciau penodol, fel cau ysgol, yn debycach o ennyn diddordeb y cyhoedd, cydnabu'r Gweinidog y byddai'n syndod “if the challenges leading up to that school closure had not been highlighted as part of the improvement plan in the preceding years”.<sup>156</sup> Esboniodd ei fod e o'r farn ganlynol:

“Very often, what happens is that the first time the citizens find out about school closures or other such big decisions is when they open the local paper, but, as part of this process, if there are excess school places, we hope that the challenge will have been flagged up in the preceding years. The rationale for going down that road should certainly not come as a surprise.”<sup>157</sup>

#### *Gwybodaeth ac ymgysylltu â dinasyddion - ein barn ni*

**146. Er i bwysigrwydd ymgysylltu â dinasyddion gael ei gydnabod, nid oedd bob amser yn glir sut y dylid mynd i'r afael â hyn: ai drwy'r Mesur**

<sup>152</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG16

<sup>153</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [144], 25 Tachwedd 2008

<sup>154</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [145], 25 Tachwedd 2008

<sup>155</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG18

<sup>156</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [122], 2 Rhagfyr 2008

<sup>157</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [122], 2 Rhagfyr 2008

arfaethedig ynteu drwy ganllawiau. Cydnabu llawer o'r rhanddeiliaid fod ymgysylltu'n hanfodol os yw'r awdurdodau gwella am gyflawni gwelliannau mewn gwasanaethau sy'n bodloni anghenion y cyhoedd.

147. Wrth ddatblygu canllawiau ar adrannau 13 i 15 o'r Mesur arfaethedig, rydym yn argymhell y dylid mynd ati o ddifrif i roi ystyriaeth i'r ffordd orau i gyflwyno gwybodaeth am wella er mwyn sicrhau ei bod yn ystyrllon i'r cyhoedd a'i bod yn gysylltiedig â'r gwasanaethau y maen nhw'n eu cael. Fel rhan o'r broses hon, rydym o'r farn ei bod yn hanfodol i ganllawiau o'r fath gael eu datblygu ar y cyd ag amrediad mor eang â phosibl o randdeiliaid.

#### **Adrannau 16-28: Archwiliadau ac asesiadau gwella, a swyddogaethau eraill yr Archwilydd Cyffredinol**

##### *Y cefndir*

148. Mae adran 16 yn rhestru'r rheoleiddwyr perthnasol a'u swyddogaethau perthnasol ac mae'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i newid y rhestr honno drwy orchymyn. Mae adrannau 17-20 yn ymwneud â'r dyletswyddau sy'n cael eu gosod ar yr Archwilydd Cyffredinol o ran archwiliadau ac asesiadau gwella ac mae adrannau 22-28 yn ymwneud â dyletswyddau eraill yr Archwilydd Cyffredinol.

149. Yn benodol, mae adran 19 yn ymwneud â rôl y rheoleiddwyr perthnasol wrth ategu asesiadau a wneir gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan adran 18 ac mae'n caniatáu i'r Archwilydd Cyffredinol ei gwneud yn ofynnol i'r rheoleiddwyr perthnasol ddarparu adroddiadau sy'n amlinellu'r hyn yn y maen nhw wedi'i ganfod wrth arfer eu swyddogaethau perthnasol.

150. Mae adran 24 yn ymwneud â chydlynu archwiliadau ac yn gosod dyletswydd ar yr holl reoleiddwyr perthnasol i roi sylw i'r angen i gydlynu wrth arfer swyddogaethau rheoleiddio. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol ymgynghori â'r rheoleiddwyr perthnasol a llunio amserlen ar gyfer rheoleiddio ac arolygu pob awdurdod gwella. Yna rhaid i'r holl reoleiddwyr perthnasol a'r Archwilydd Cyffredinol gymryd camau rhesymol i gadw at yr amserlen.

##### *Y fframwaith rheoleiddio ac arolygu cyffredinol - tystiolaeth y rhanddeiliaid*

151. Roedd yr Archwilydd Cyffredinol yn "broadly content" ar y swyddogaethau a ddarperir ar ei gyfer gan adrannau 17 i 20 ac 22 i 28 o'r Mesur arfaethedig, yn amodol ar drafodaethau manwl am unrhyw ganllawiau ategol,<sup>158</sup> gan nodi "the new arrangements will enable us to deliver a much more visibly focused regulatory programme than the current arrangements".<sup>159</sup> Croesawodd yr Archwilydd Cyffredinol y gofynion

---

<sup>158</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG2

<sup>159</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [110], 11 Tachwedd 2008

ynghylch adroddiadau sydd wedi'u gosod arno drwy gyfrwng adrannau 20, 23 a 25, gan nodi:

“The three sets of reports are necessary. Some of them are summaries of other work, but expressing complicated things so that citizens can understand them requires summary reports to be produced. So, while it may sound wasteful to have summary reports, it is a real benefit, because the longer technical reports are needed but are not accessible to citizens, whereas shorter summaries will be.”<sup>160</sup>

152. Dywedodd Estyn<sup>161</sup> a'r Archwilydd Cyffredinol<sup>162</sup> fod mwy o gydlynu wedi digwydd drwy gyfrwng cydweithredu gwirfoddol ymhlith cyrff rheoleiddio yn y blynyddoedd diwethaf, ond cytunodd y ddau fod yna le i wella eto ac y byddai dyletswydd statudol ynglŷn â'u gweithgareddau yn briodol ac yn fuddiol. Er hynny, fe gododd yr Archwilydd Cyffredinol, Estyn ac AGGCC nifer o bryderon penodol ynghylch natur y ddyletswydd statudol a thrafodir y rhain ym mharagraffau 171 i 190 isod.

153. Dangosodd tystiolaeth yr awdurdodau lleol gefnogaeth gyffredinol i well cydlynu arth arfer swyddogaethau rheoleiddio. Roedd Cyngor Bwrdeistref Castell-nedd Port Talbot yn croesawu “any proposals which add value and reduce the burden of inspection / regulation”.<sup>163</sup> Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam y bydden nhw'n croesawu “the introduction of the changes proposed in relation to risk, regulation and inspection, but wonder how this will be delivered in reality without statutory guidance to support it across all the inspection and regulation bodies”.<sup>164</sup> Rhoddodd Cyngor Gwynedd rybudd hefyd, gan ddweud:

“Mae angen i bwyslais gwaith archwilio fod ar gynorthwyo cynghorau i gyflawni'r gwelliannau y mae'r mesur yn galw arnom i wneud yn hytrach na'n dal i gyfrif yn ôl cyfundrefnau sydd ddim o reidrwydd yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol.”<sup>165</sup>

154. Nododd y Gwasanaeth Tân ac Achub y bydd angen gofal wrth roi'r Mesur arfaethedig ar waith, er mwyn sicrhau y caiff y dyhead i leihau baich archwiliadau ei wireddu, gan fod yna botensial i'r baich hwnnw gynyddu.<sup>166</sup>

155. Rhoddodd SOLACE groeso i adran 24 o'r Mesur arfaethedig ynghylch cydlynu gwaith archwilio, er eu bod o'r farn y dylai'r Archwilydd Cyffredinol ymgynghori hefyd â'r awdurdodau gwella wrth baratoi'r amserlen reoleiddio.<sup>167</sup> Cafwyd cefnogaeth i adran 24 hefyd gan CLILC<sup>168</sup> a Chyngor Sir

---

<sup>160</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [117], 11 Rhagfyr 2008

<sup>161</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG5

<sup>162</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG2

<sup>163</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG16

<sup>164</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG10

<sup>165</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG13

<sup>166</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG11

<sup>167</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG12

<sup>168</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG1

Ddinbych a ddywedodd, “there is an obvious need for improved integration of audit and inspection at the local level”.<sup>169</sup>

*Y fframwaith rheoleiddio ac arolygu cyffredinol - tystiolaeth y Gweinidog*

156. Mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dweud bod y Mesur arfaethedig yn bwriadu:

sicrhau mwy o gydlafurio rhwng archwilwyr, rheoleiddwyr ac arolygwyr llywodraeth leol er mwyn cael y gwerth mwyaf posib ohonynt a lleihau'r baich (golyga hyn i bob pwrpas roi arferion gorau cyfredol ar sail statudol);<sup>170</sup>

157. Esboniodd y Gweinidog mai diben y gyfundrefn archwilio ac arolygu sydd wedi'i chynnwys yn y Mesur arfaethedig yw:

“... coordinate the activities of regulators and inspectors, as well as to streamline the process, so that the whole process will be less onerous on local authorities, but more efficient from the inspectorate’s point of view.”<sup>171</sup>

158. Dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthon ni fod y Mesur arfaethedig yn ceisio cywiro gwallau yn y gyfundrefn bresennol, sy'n ymwneud â rôl gyfredol yr Archwilydd Cyffredinol o ardystio bod cynlluniau gwella wedi'u paratoi ac wedi'u cyhoeddi yn y modd priodol, a chynnal arolygiadau ar sail ad hoc.<sup>172</sup> Esboniodd fod rôl yr Archwilydd Cyffredinol yn cael ei datblygu drwy adrannau 17 a 18 i ddarparu “a retrospective validation as to where an authority has got to, as well as a prospective prognostic ... looking forward as to where it might go in the future”, gan ddod â rhywfaint o reoleidd-dra i'r gwaith.<sup>173</sup>

*Y fframwaith rheoleiddio ac arolygu cyffredinol - Ein barn ni*

159. Rydym o'r farn bod y fframwaith rheoleiddio ac arolygu cyffredinol yn briodol, er ein bod yn cyflwyno sylwadau ar agweddau penodol ar y fframwaith a nodir yn adrannau 16, 18, 19 a 24.

*Y term ‘rheoleiddiwr’ - tystiolaeth Estyn*

160. Awgrymodd Estyn y byddai'r term ‘inspection, audit and regulatory body’ yn well na ‘regulator’ yn adran 16<sup>174</sup>, a hefyd “the word ‘regulator’ is probably too much of a shorthand”.<sup>175</sup>

---

<sup>169</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG21

<sup>170</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.12

<sup>171</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [79], 4 Tachwedd 2008

<sup>172</sup> Cofnod y Trafodion, paragraffau [83], 4 Tachwedd 2008

<sup>173</sup> Cofnod y Trafodion, paragraffau [83-84], 4 Tachwedd 2008

<sup>174</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG5

<sup>175</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [115], 25 Tachwedd 2008



*Y term ‘rheoleiddiwr’ - tystiolaeth y Gweinidog*

161. Roedd y Gweinidog o’r farn y byddai adran 16(2) yn ymdrin ag unrhyw ddrysych ynghylch ystyr ‘rheoleiddiwr perthnasol’.<sup>176</sup>

*Y term ‘rheoleiddiwr’ - ein barn ni*

162. Rydym yn cytuno â’r Gweinidog fod y term ‘rheoleiddiwr’ yn adran 16 yn briodol.

*Asesiadau blynyddol - tystiolaeth y rhanddeiliaid*

163. Un mater penodol a gododd mewn cysylltiad â’r gyfundrefn arolygu ac archwilio oedd yr asesiad gwella blynyddol o dan adran 18 o’r Mesur arfaethedig.

164. Roedd CLILC yn amau a oedd angen asesiad gan yr Archwilydd Cyffredinol yn achos pob awdurdod bob blwyddyn, yn unol â’r hyn sydd wedi’i nodi yn adran 18. Dyma a fyddai orau gan y gymdeithas:

“..following an initial assessment, the Auditor General is accorded scope to defer further reassessment of this matter for up to three years in circumstances where the assessment identifies that an authority’s arrangements are sufficiently robust and well-established to warrant confidence that reassessment within a one year cycle is not necessary. Annual improvement reports (s25(1)) in years 2 and/or 3 could then report on the basis of ‘no contrary indications’.”<sup>177</sup>

165. Dywedodd y gymdeithas hefyd y byddai’n hoffi gweld “some sort of proportionate-to-risk-type approach to inspection” ac er bod yr archwilydd yn arddel ymagwedd o’r fath yn ôl pob tebyg, dywedodd fod angen i hynny gael ei deall yn well.<sup>178</sup> Cytunodd y Gwasanaeth Tân ac Achub â CLILC.<sup>179</sup>

166. Nododd cynrychiolydd SOLACE hyn:

“... there is no particular consensus in SOLACE .... some are in favour of annual assessment, and some are not. My view is that, if you do not have annual assessment, you rapidly lose track of what is happening, and it is easy for people to hide in an assessment cycle in which assessments are held less frequently than once a year. Some people manage to hide in an annual assessment cycle, but at least you have a chance of finding out what is going on. Therefore, I personally would not favour a longer assessment cycle.”<sup>180</sup>

<sup>176</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [124], 2 Rhagfyr 2008

<sup>177</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG1

<sup>178</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [71], 11 Tachwedd 2008

<sup>179</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [35], 2 Rhagfyr 2008

<sup>180</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [38], 25 Tachwedd 2008

167. Roedd yr Archwilydd Cyffredinol yn teimlo hefyd fod asesiadau blynyddol yn briodol, gan ddweud:

“an annual assurance seems to be perfectly reasonable, provided that the work that is done to provide that assurance is proportionate to the situation—and it is my aim that it should be.”<sup>181</sup>

168. Dywedodd WANPA y dylai'r archwilio a'r arolygu a fyddai'n gymwys i awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol fod yn gymesur â risg a graddfa'u gwaith,<sup>182</sup> a hefyd “proportionality of assessment needs to be built in to the audit regime”.<sup>183</sup>

#### *Asesiadau blynyddol - tystiolaeth y Gweinidog*

169. Dywedodd y Gweinidog fod gwiriad blynyddol yn ddymunol, “but it should be proportionate” ac y disgwyliid gweld “lighter touch” yn achos awdurdodau a fyddai'n gwneud yn dda iawn, o'i gymharu â “root-and branch approach” yn achos y rhai a fyddai'n agored i fethiant. Roedd yn credu hefyd y gallai hyn gael ei nodi'n fanwl yn y canllawiau.<sup>184</sup>

#### *Asesiadau blynyddol - ein barn ni*

170. Rydym yn cytuno bod asesiadau blynyddol fel y maen nhw wedi'u nodi yn adran 18 o'r Mesur arfaethedig yn briodol ond yn ategu sylwadau'r Archwilydd Cyffredinol a'r Gweinidog y dylai'r gwaith asesu a wneir fod yn gymesur â'r sefyllfa. Gan hynny, rydym yn argymhell y dylai'r canllawiau roi sylw penodol i'r pwynt hwn.

#### *Gweithredu'r fframwaith arolygu a rheoleiddio - tystiolaeth rheoleiddwyr perthnasol a'r Archwilydd Cyffredinol*

171. Mynegodd Estyn ac AGGCC bryderon am adrannau penodol yn y Mesur arfaethedig sy'n ymdrin â'r fframwaith arolygu a rheoleiddio. Un pryder penodol a oedd gan y ddau sefydliad oedd geiriad adran 19 sy'n 'ei gwneud yn ofynnol' iddyn nhw roi adroddiadau i'r Archwilydd Cyffredinol. Dywedodd Estyn:

“... the clause currently proposes that the Auditor General should be given powers to ‘require’ HMCI to provide the Auditor General with reports and the Auditor General has powers to give instructions as to the form [and] content of the report to be furnished.

I believe this approach is inappropriate and unnecessary in order to achieve the intended purpose. It is at odds with the Explanatory Notes at Appendix 1 to the Explanatory Memorandum to the Measure, which

<sup>181</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [119], 11 Tachwedd 2008

<sup>182</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG14

<sup>183</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [40] 2 Rhagfyr 2008

<sup>184</sup> Cofnod y Trafodion, paragraffau [126-128], 2 Rhagfyr

refers to the regulators “co-ordinating their activities” and “assisting” the Auditor General.

More importantly, however, it fails to recognise that the office of HMCI has an equivalent independent status to that of Auditor General.”<sup>185</sup>

172. Aeth Estyn ymlaen i ddweud bod adran 19 yn mentro creu “an unhelpful inconsistency with the need for me to maintain the ability to respond to urgent or unscheduled priorities, including Ministerial requests” gan awgrymu ffordd arall o ailddrafftio adran 19, a pharhau i gadw bwriad y Mesur arfaethedig,<sup>186</sup> gan ddweud:

“We would be quite happy with section 19 being redrafted along the lines of the auditor general having the right to request the co-operation and assistance of relevant inspectorate bodies, and then for us to inform him of our findings on various sector specific aspects of inspection. That should be balanced by a duty being placed on me and others to provide assistance to the auditor general and to co-operate with him as far as is reasonably practicable. Combining those things would deliver the purpose well.”<sup>187</sup>

173. Wrth gyflwyno sylwadau cyffredinol, dywedodd AGGCC “there must be no clouding of my statutory functions as an independent Inspectorate”<sup>188</sup> ac y byddai “a duty to co-operate” yn ddigon,<sup>189</sup> gan nodi:

“Our relationship with the Auditor General for Wales must be one of co-operation not one where he is able to direct our activity or influence our professional judgement.”<sup>190</sup>

174. Un pryder penodol i AGGCC o ran adran 19 oedd:

“... the Auditor General may give instructions as to how my Inspectorate should comply with his request for such a report, in particular by imposing requirements as to the content of a report, as to the period to which a report is to relate and a particular date by which the report must be produced.”<sup>191</sup>

175. Mynegodd yr Archwilydd Cyffredinol rai amheuan am fanylion ymarferol y fframwaith arolygu a rheoleiddio.

176. Roedd yr Archwilydd Cyffredinol yn aneglur “about the thinking behind the timings proposed in the Measure for local authorities to prepare material and for me to audit or assess it”.<sup>192</sup> Dywedodd:

---

<sup>185</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG5

<sup>186</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG5

<sup>187</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [110], 25 Tachwedd 2008

<sup>188</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG6

<sup>189</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG6

<sup>190</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG6

<sup>191</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG6

<sup>192</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG2

“... the draft Measure proposes a common deadline (30 November) for me to issue both the backward-looking audit and the forward-looking assessment. Moreover, that deadline takes no account of the business planning cycles of authorities that might quite legitimately differ from each other. It would certainly be helpful, pending further discussion and a clearer understanding of the practicalities of implementation, to remove from the legislation the specific dates ... The agreed timetable could then be set out in Ministerial orders or supporting guidance.”<sup>193</sup>

177. Wrth gael ei holi, mynegodd yr Archwilydd Cyffredinol ragor o bryder a yw'r amserlen ar gyfer ei waith sydd wedi'i nodi yn y Mesur arfaethedig yn gweithio mewn gwirionedd,<sup>194</sup> gan nodi y bydd rhaid iddo ysgrifennu 44 o adroddiadau bob blwyddyn rhwng 31 Hydref a 30 Tachwedd.<sup>195</sup> Aeth yn ei flaen i ddweud:

“The only way around that would be for the local authorities to report earlier than their statutory deadline, and no doubt they would try to do their best, but all past experience teaches us that if there is a statutory deadline, that is the one that people will meet and they will probably drift towards that even if they do better to start with.”<sup>196</sup>

178. Nododd yr Archwilydd hefyd y gallai adran 24 fod yn rhwystr a fyddai'n atal ymateb rheoleiddiol “truly coordinated”, gan ddweud bod yr adran yn rhoi i'r Archwilydd Cyffredinol:

“... powers to coordinate only the timetable of the relevant regulators but not their activities. That means that it would be theoretically possible, within the framework of the Measure, for different regulators to carry out duplicative work at the same local authority; the Measure would merely ensure that such activity did not happen at the same time.”<sup>197</sup>

179. Yn ystod y cwestiynau, roedd yn teimlo bod y trefniadau yn y Mesur arfaethedig yn “quite complicated”.<sup>198</sup> Ailddatganodd yr Archwilydd Cyffredinol ei bryder ynghylch cydlynu'r gwaith rheoleiddio gan ddweud nad oedd y Mesur arfaethedig yn rhoi i “anyone – certainly not me – the explicit power to co-ordinate regulation”.<sup>199</sup> Roedd yn credu ei bod yn braf cael “back up powers” ond nid oedd yn ymgyrchu dros gael y pŵer hwnnw.<sup>200</sup>

---

<sup>193</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG2

<sup>194</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [106], 11 Tachwedd 2008

<sup>195</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [108], 11 Tachwedd 2008; mae adran 20(3) o'r Mesur arfaethedig yn darparu bod rhaid i gopïau o adroddiadau archwilio ac asesu a baratoir gan yr Archwilydd Cyffredinol gael eu hanfon at yr awdurdodau gwella a Gweinidogion Cymru erbyn 30 Tachwedd bob blwyddyn.

<sup>196</sup> Ibid

<sup>197</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG2

<sup>198</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [114], 11 Tachwedd 2008

<sup>199</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [124], 11 Tachwedd 2008

<sup>200</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [125], 11 Tachwedd 2008

180. Mynegodd AGGCC bryderon gwahanol ynglŷn â geiriad adran 24, gan ddweud y gallai'r gofyniad a osodir ar yr Archwilydd Cyffredinol i ddarparu amserlen gyfyngu ar eu gwaith nhw.<sup>201</sup> Cafodd teimlad tebyg ei fynegi gan Estyn.<sup>202</sup>

181. O'u holi ar y materion hyn, dywedodd AGGCC "it is important that there is co-ordination and collaboration between inspectorates", ond eto i gyd

"... there is a distinction between that and a requirement that one regulator or inspectorate, in that sense, could sit above the others. The difficulty is that I cannot subsume my responsibilities, which are in reality the responsibilities of Welsh Ministers, under those of another inspectorate or regulator."<sup>203</sup>

#### *Gweithredu'r fframwaith arolygu a rheoleiddio - tystiolaeth y Gweinidog*

182. Esboniodd y Gweinidog fod adran 19 o'r Mesur arfaethedig yn caniatáu i'r Archwilydd Cyffredinol "call on the expertise of other regulators to inform his or her overall view of how an authority is performing".<sup>204</sup> Ychwanegodd un o swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru:

"... there may be restrictions on the ability of other regulators and inspectors to disclose information other than in pursuance of a statutory duty to disclose it. This is such a statutory duty to disclose it."<sup>205</sup>

183. O ran pryderon Estyn ac AGGCC ynghylch adran 19, dywedodd y Gweinidog:

"This part of the legislation refers to when the auditor general does a global health check of the wellbeing of an organisation, at which time other inspectorates would be expected to contribute. In that respect, it is reasonable for the auditor general to expect reports from the other inspectorates."<sup>206</sup>

184. Aeth yn ei flaen i ddweud "the section gives the auditor general a bit more discretion as to whether he would require the other regulators or inspectorates to provide a report".<sup>207</sup>

185. O'i holi am faint o waith a oedd yn cael ei roi i'r Archwilydd Cyffredinol rhwng diwedd mis Hydref a diwedd mis Tachwedd, cydnabu'r

---

<sup>201</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG6

<sup>202</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG5

<sup>203</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [105], 25 Tachwedd 2008

<sup>204</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [86], 4 Tachwedd 2008

<sup>205</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [87], 4 Tachwedd 2008

<sup>206</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [133], 2 Rhagfyr 2008

<sup>207</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [134], 2 Rhagfyr 2008

Gweinidog y pwynt a oedd yn cael ei wneud, gan nodi y byddid yn ailedrych ar y mater.<sup>208</sup>

186. Esboniodd y Gweinidog y bydd adran 24 yn caniatáu i'r awdurdodau wybod:

“... for the forthcoming year, or possibly even longer ... when the regulators and inspectors will be coming in. Implicit in all of this is that these inspectors and regulators will discuss their inspection regimes among themselves and that they will try to do that in the most effective, efficient and economical way ... bearing in mind local authorities' duty to get on and deliver public services ... this is about trying to bring some sort of order from the point of view of the regulators and the receivers of the inspections.”<sup>209</sup>

187. Cyfeiriodd y Gweinidog hefyd at y ffaith bod adran 24(3) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol ymgynghori â'r rheoleiddwyr perthnasol cyn cynhyrchu amserlen,<sup>210</sup> gan ail-ddatgan mai diben adran 24 “is to bring some order to the inspection process where there is value in timetabling that, such as for a joint inspection”.<sup>211</sup> Dywedodd hefyd:

“However, I do not think it appropriate for the auditor general to tell other professional inspectorates how to do their job. If the auditor general was in a position to give those directions, there would be no point in having a separate inspectorate. The whole point of having a separate inspectorate is that it has its own skills and expertise and it does its job in a separate way, in line with the functions of the organisations that it inspects. So, I do not think that the case has been made for the auditor general to stray into the professional expertise of other inspectorates.”<sup>212</sup>

*Gweithredu'r fframwaith arolygu a rheoleiddio - ein barn ni*

188. Rydym wedi nodi pryderon AGGCC ac Estyn y gallai adran 19 o'r Mesur arfaethedig, fel y mae wedi'i drafftio, o dan rai amgylchiadau lyffetheirio'u gwaith nhw fel rheoleiddwyr, bod yr ymagwedd yn ddiangen a'i bod, yng ngeiriau Estyn, yn methu â chydabod “that the office of HMCI has an equivalent independent status to that of the Auditor General”. Rydym yn cytuno ag AGGCC ac Estyn y byddai dyletswydd i gydweithredu â'r Archwilydd Cyffredinol yn gwireddu'r diben a fwriedir yn adran 19. Gan hynny, rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog ystyried cyflwyno gwelliannau i adran 19, gan ddisodli'r darpariaethau presennol â darpariaethau a fydd yn darparu ar gyfer dyletswydd i gydweithredu rhwng yr Archwilydd Cyffredinol a'r rheoleiddwyr perthnasol.

<sup>208</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [148], 2 Rhagfyr 2008

<sup>209</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [87], 4 Tachwedd 2008

<sup>210</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [140], 2 Rhagfyr 2008

<sup>211</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [146], 2 Rhagfyr 2008

<sup>212</sup> Ibid

189. Er ein bod o blaid cynnwys dyddiad 30 Tachwedd yn adran 20(3) o'r Mesur arfaethedig, rydym yn nodi bod y Gweinidog wedi cytuno i edrych eto ar effaith y trefniadau amserlennu y mae'r Mesur arfaethedig yn eu creu. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, rydym yn croesawu'r symudiad hwn ac yn cyfeirio at ein casgliadau a'n hargymhellion blaenorol ynghylch y trefniadau amserlennu.

190. Rydym yn credu bod y gwaith drafftio yn adran 24 yn briodol. Er ein bod yn cydnabod y pryderon a godwyd gan Estyn ac AGGCC, rydym yn nodi bod adran 24, fel y mae wedi'i drafftio, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol ymgynghori â nhw cyn i amserlen gael ei phennu. Nid ydym yn credu y byddai'n briodol i'r Archwilydd Cyffredinol reoli gweithgareddau rheoleiddwyr perthnasol eraill o gofio'u statws ac y dylai unrhyw faterion ynglŷn ag amseru gweithgareddau'r rheoleiddwyr perthnasol gael eu datrys drwy'r broses ymgynghori y darperir ar ei chyfer yn adran 24(3) o'r Mesur arfaethedig.

### Adrannau 29-31: Pwerau Gweinidogion Cymru

#### *Y cefndir*

191. Mae adran 29 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i 'wneud unrhyw beth' y maen nhw'n credu ei fod yn debyg o helpu awdurdod gwella i gydymffurfio â gofynion Rhan 1 o'r Mesur arfaethedig. Mae adran 30 yn cynnwys pwerau, i'w harfer o dan amgylchiadau penodol, i Weinidogion Cymru ymyrryd mewn awdurdod gwella a rhoi cyfarwyddiadau i awdurdod gwella, sy'n methu, neu sydd mewn perygl o fethu, â chydymffurfio â'r Mesur arfaethedig. Yn benodol, mae adran 30(2)(c) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i gyfarwyddo awdurdod gwella i wneud trefniadau cydlafurio penodedig gydag awdurdod gwell Cymreig arall.

192. Mae adran 31 yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod gwella nad yw o reidrwydd yn methu ei hunan (a hyn ar ôl ymgynghori â'r awdurdod hwnnw yn gyntaf) i gydlafurio ag awdurdod sy'n methu.

193. Mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datgan bod y Mesur arfaethedig yn bwriadu:

ymestyn a chynnig eglurhad ynghylch pwerau Gweinidogion i gefnogi gwelliannau mewn awdurdodau lleol ac i ymyrryd lle bo angen;<sup>213</sup>

#### *Pwerau Gweinidogion Cymru - tystiolaeth y rhanddeiliaid*

194. Cododd y pwerau sy'n cael eu rhoi i Weinidogion Cymru yn adrannau 29 i 31 bryder i lawer o'r rhanddeiliaid ac mae rhai o'r sylwadau mwyaf cyffredinol am yr adrannau hyn wedi'u nodi ym mharagraffau 195 i 198 isod,

<sup>213</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.12

gyda sylwadau mwy penodol am ddarpariaethau unigol ym mharagraffau 199 i 222.

195. Dywedodd CLILC:

“We know what ministerial intent lies behind sections 29 to 33, but we already have a voluntary collaboration system in place. When an authority finds itself facing problems, we have a system in place to sort them out. We do not necessarily see the need for this power to be enshrined in a Measure.”<sup>214</sup>

196. Cyfeiriodd CLILC hefyd at bwysigrwydd y protocol drafft ar ymyrryd a chefnogi, y cytunwyd arno ar y cyd rhwng CLILC a Llywodraeth y Cynulliad fel ffordd i helpu i ddatrys problemau ar ôl iddyn nhw gael eu gweld.<sup>215</sup>

197. Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr:

“The powers given to Welsh Ministers in sections 29 to 31 will need to be exercised extremely carefully and not be used in a way that would be detrimental to local decision making and accountability. Any ministerial intervention must be based on a credible evidence base, and compatible with the Welsh Assembly Government intervention protocol.”<sup>216</sup>

198. Ym marn yr Archwilydd Cyffredinol:

“It is right that there should be powers for Ministers to intervene. They are currently rarely used. I have no particular comments on the details of these. They seem to be broad, which is appropriate, given the circumstances—it would be difficult to legislate for the precise circumstances that might arise.”<sup>217</sup>

*Pŵer Gweinidogion Cymru i wneud unrhyw beth - tystiolaeth y rhanddeiliaid*

199. Mynegodd llawer o’r ymatebwyr a’r tystion bryder ynghylch pŵer arfaethedig Gweinidogion Cymru i ‘wneud unrhyw beth’ yn adran 29, yn enwedig yn nhermau ehangder y pŵer y darperid ar ei gyfer. Dywedodd CLILC eu bod yn croesawu:

“... in particular, the powers of “support for ... improvement authorities” proposed for Welsh Ministers in s29 ... We would however question the breadth of the scope for Ministers to ‘do anything’ to assist an authority to improve and we note that this power may be clarified in subsequent statutory guidance.”<sup>218</sup>

<sup>214</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [75], 11 Tachwedd 2008

<sup>215</sup> Cofnod y Trafodion, paragraffau [78-9], 11 Tachwedd 2008; Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG1.

<sup>216</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG15

<sup>217</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [127], 11 Tachwedd 2008

<sup>218</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG1



200. Cyn i un o Weinidogion Cymru ymyrryd neu roi cefnogaeth, roedd CLILC yn credu y dylid ymgynghori â'r awdurdod, gan y byddai hynny'n caniatáu i'r Gweinidog hwnnw "make an informed decision regarding the use of such powers".<sup>219</sup> Byddai ymgynghori ymlaen llaw fel hyn yn cyd-fynd hefyd â'r protocol cyfredol ar ymyrryd.<sup>220</sup>

201. Mynegodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam bryder hefyd ynghylch ehangder y pŵer i 'wneud unrhyw beth'.<sup>221</sup>

202. Dywedodd SOLACE:

"The views are quite split on this, but across the board, there is a feeling of unease that this power could be misused over time. Many feel that, if used wisely, it could be helpful, but that it is a somewhat blunt instrument."<sup>222</sup>

a hefyd:

"... I do not have a clear mandate to talk on this because views are split. The best way I can bring them together is to say that, in general, the society has grave reservations about this part of the proposed Measure. It would like to see some kind of constraints put on it, such as this duty on Ministers to consult so that at least all parties concerned in a situation that might arise under section 29 could have a say. I think that there is a feeling that this power is open to abuse by Ministers – not necessarily the current set of Ministers."<sup>223</sup>

203. Doedd y Gwasanaeth Tân ac Achub ddim yn credu y dylai'r pŵer i 'wneud unrhyw beth' gael ei gyfyngu<sup>224</sup> ond fe fyddai'n well ganddyn nhw gael "a more detailed definition of what to do anything means".<sup>225</sup> Nododd y Gwasanaeth hefyd:

"I suspect that a Minister would use that type of power very judiciously and sparingly. Having said that, it is quite a broad definition. I understand why it is included in the proposed Measure, I also understand that it would be used in exceptional circumstances, but I have issues with the terminology."<sup>226</sup>

204. Dywedodd WANPA:

---

<sup>219</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG1

<sup>220</sup> Ibid

<sup>221</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG10

<sup>222</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [40], 25 Tachwedd 2008

<sup>223</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [42], 25 Tachwedd 2008

<sup>224</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [55], 2 Rhagfyr 2008

<sup>225</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [47], 2 Rhagfyr 2008

<sup>226</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [49], 2 Rhagfyr 2008

“We understand the WLGA’s concerns regarding the granting of such a wide power and the risk that it produces of inappropriate micromanagement. Nonetheless, if the Assembly concludes that Ministers may sometimes need to intervene, it may be appropriate for Ministers to have flexible powers at their disposal that would enable them to tailor action to the particular circumstances with which they are faced.”<sup>227</sup>

205. Roedd Cyngor Sir Ddinbych hefyd yn teimlo y dylid egluro’r pwerau sy’n cael eu rhoi i Weinidogion Cymru i wneud “anything to assist in compliance with improvement”.<sup>228</sup>

*Pŵer Gweinidogion Cymru i wneud unrhyw beth - tystiolaeth y Gweinidog*

206. Mae’r Memorandwm Esboniadol yn dweud bod y pŵer yn adran 29 yn un bras:

... am ei bod yn amhosibl pennu’n fanwl-gywir holl ffurfiau posibl cymorth o’r fath. Er hynny, nid yw Gweinidogion Cymru yn cael defnyddio’r pŵer er mwyn cyfarwyddo awdurdod na neb arall: i wneud hynny, byddai angen iddyn nhw ddefnyddio’r pwerau yn adran 30, sef pwerau sy’n destun amodau.

Mae’r adran hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried rhoi cymorth os bydd awdurdod yn gofyn iddyn nhw wneud hynny.<sup>229</sup>

207. Wrth gyfiawnhau’r pŵer i wneud unrhyw beth a geir yn adran 29, dywedodd y Gweinidog ei fod wedi’i ddrafftio:

“... to give Ministers sufficient flexibility to assist local authorities to deliver improvement ... If an authority had a particular need that was not included in the legislation, we would not have legislative cover for that. Therefore, rather than trying to anticipate every conceivable type of assistance that a local authority could be provided with, we felt that having a more general phrasing was the best way to cover this and to remove possible ambiguity. However, this must be seen in the context of providing assistance to local authorities; the intention is not to take over their powers.”<sup>230</sup>

208. Dywedodd hefyd:

“... the idea behind the wording of the legislation is to provide flexibility within a context. The words do not have any meaning unless they are seen in the context of providing assistance. If you took the words out and said that we had the power to do anything,

<sup>227</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [51], 2 Rhagfyr 2008

<sup>228</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG21

<sup>229</sup> Memorandwm Esboniadol, tudalen 28

<sup>230</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [94], 4 Tachwedd 2008

that might be alarming, but the words are clearly written to give the context of providing support and assistance to a local authority that is involved in the improvement process.”<sup>231</sup>

209. O'i holi ymhellach, pwysleisiodd y Gweinidog “there is no mandatory element in section 29 – it is about support and assistance” ac na allai adran 29 gael ei defnyddio i ymyrryd mewn awdurdodau a fyddai'n methu: byddai'n rhaid defnyddio pwerau adran 30 i wneud hynny.<sup>232</sup>

*Pŵer Gweinidogion Cymru i wneud unrhyw beth - ein barn ni*

210. Er bod llawer o sefydliadau wedi mynegi pryder ynglŷn ag ehnagder y pŵer sy'n cael ei roi i Weinidogion Cymru i 'wneud unrhyw beth' o dan adran 29, rydym yn nodi bod rhywfaint o gydnabyddiaeth wedi bod mai'r hyn y mae ei angen yw syniad cliriach o sut y caiff y pwerau hyn eu defnyddio. Rydym yn derbyn ei bod yn anodd nodi mewn deddfwriaeth bob posibilrwydd a allai godi, ac y gallai ceisio gwneud hynny gael effaith negyddol ar allu Gweinidogion Cymru i helpu awdurdodau gwella. Rydym hefyd yn credu ei bod yn bwysig cydnabod bod adran 29 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i helpu ar gais yr awdurdodau gwella. O dan yr amgylchiadau, rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog ystyried sefydlu concordat i egluro o dan ba amgylchiadau y mae'r pŵer o dan adran 29 i gael ei harfer.

211. Rydym hefyd yn credu y gallai rhai o'r pryderon gael eu goresgyn pe bai dyletswydd yn cael ei darparu i ymgynghori â'r awdurdodau gwella cyn arfer y pŵer yn adran 29. Rydym hefyd yn credu y dylai'r cysylltiad rhwng adran 29 ac adran 30 (sy'n amlwg o sut mae adran 30 wedi'i drafftio) gael ei nodi'n glir yn adran 29. Gan hynny, rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog ystyried cyflwyno gwelliannau priodol i wneud y newidiadau hyn.

*Pŵer Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo cydlafurio - tystiolaeth y rhanddeiliaid*

212. Er bod y rhanddeiliaid yn cydnabod bod angen creu pŵer cyffredinol yn galluogi'r awdurdodau i gydlafurio â'i gilydd i sicrhau gwelliannau (adran 9), codwyd pryderon am y pwerau wrth gefn i'r Gweinidogion i'w cyfarwyddo i gydlafurio, sef pwerau sydd i'w cael yn adrannau 30 ac 31.

213. Dywedodd CLILC eu bod heb eu hargyhoeddi ynglŷn â “the principle, merits or deliverability in practice of the power to direct collaboration” sydd wedi'i nodi yn adrannau 30(2)(c) ac 31 gan awgrymu y dylen nhw gael eu dileu o'r Mesur arfaethedig “as it cannot conceive of a situation where it could be appropriately or successfully implemented”.<sup>233</sup>

<sup>231</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [98], 4 Tachwedd 2008

<sup>232</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [159], 2 Rhagfyr 2008

<sup>233</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG1

214. Ar ben hynny, tanlinellodd CLILC hyn: “the Minister, speaking at Partnership Council on 27th November himself said he could not conceive of a situation where such a power to direct collaboration would at present be required”.<sup>234</sup> Teimlai’r gymdeithas nad oedd yn debyg iawn y byddai Llywodraeth y Cynulliad byth yn defnyddio’r pŵer oherwydd “there is a strong culture of collaborative support within the family of Welsh local government”, a’r diwylliant hwnnw’n cael ei ategu ymhellach gan “improvement support and capacity provided by the WLGA’s improvement teams...”.<sup>235</sup>

215. Roedd CLILC hefyd yn gwrthwynebu’r pŵer yn adran 31 ar sail egwyddor; am nad oes angen y pŵer, am na fydd yn gweithio ac am y bydd yn creu problemau.<sup>236</sup> Daeth y gymdeithas i’r casgliad:

“Given that neither the WLGA nor the Assembly Government can presently identify need for the new power, the power is superfluous given Wales’ healthy commitment to collaborative improvement and there are potentially significant, unexplored ramifications, the WLGA argues strongly therefore that this power should be removed from the face of the proposed Measure as it will serve little more than to be an affront to local autonomy.”<sup>237</sup>

216. Tanlinellodd rhai sefydliadau, megis WANPA<sup>238</sup>, mor bwysig yw cydymddiriedaeth, gan amau gwerth cydlafurio gorfodol. Dywedodd SOLACE wrthon ni:

“... there are grave difficulties attendant on this part of the proposed Measure. It could, and possibly will, miss the point about collaboration, which depends on mutual trust, good reasons for collaborating, local circumstances, and I would even go so far as to say, local personalities to some extent. If we are directed to collaborate and there is an absence of any of those, we believe that collaboration would be a great deal of hard work for not much gain. We would want to see a much stronger evidence base for a decision to direct authorities to collaborate.”<sup>239</sup>

217. Doedd y Gwasanaeth Tân ac Achub ddim yn glir ynghylch egwyddor y pwerau i gyfarwyddo cydlafurio a pha mor ymarferol fyddai’r pwerau hynny<sup>240</sup> a buasai’r Gwasanaeth yn hoffi meddwl “that the power to direct collaboration would not be necessary”.<sup>241</sup> Ym marn WANPA:

“... the crucial point is that Ministers make such decisions on the basis of full evidence and information. If Ministers are to have such a

---

<sup>234</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG1

<sup>235</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG1

<sup>236</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG1

<sup>237</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG1

<sup>238</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [63], 2 Rhagfyr 2008

<sup>239</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [48], 25 Tachwedd 2008

<sup>240</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG11

<sup>241</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [61], 2 Rhagfyr 2008

power, we consider it essential to insert a statutory mechanism to ensure that any decision to exercise it is made in the light of appropriate evidence.”<sup>242</sup>

ac amlinellodd WANPA un ffordd bosibl o ddiwygio adran 30.<sup>243</sup>

218. Roedd Cyngor Sir Caerfyrddin o’r farn bod y pwerau i gyfarwyddo awdurdodau i gydlafurio yn “inappropriate at this stage”<sup>244</sup>, a dadleuai Cyngor Sir Ddinbych y dylid ymgynghori’n llawn â’r cynghorau “before any form of direction and intervention is implemented”.<sup>245</sup>

### *Pŵer Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo cydlafurio - tystiolaeth y Gweinidog*

219. Wrth drafod y pŵer galluogi a ddarperir gan adran 9, nododd y Gweinidog, o ran yr opsiwn sydd ar gael yn y pen draw o gyfarwyddo awdurdodau i gydlafurio “... we do not want it to be part of routine, mainstream, day-to-day activity”.<sup>246</sup>

220. O ran y pwerau yn adrannau 30(2)(c) a 31 i gyfarwyddo awdurdodau gwella i gydlafurio, dywedodd y Gweinidog:

“... there may be situations in which a mentoring authority, a better authority, could help a failing authority. However, there might be circumstances in which the better local authority would not want to help the failing authority, for reasons that could be quite substantial, and it is in no-one’s interest for a good authority to be dragged down by a failing one. However, there could be less important reasons for a better authority to avoid helping a failing one, for example, reasons to do with their history, personality, or conditionality—in other words, an authority might be willing to help if certain circumstances were more favourable. So, we could try to address reservations or caveats about getting involved. However, even though the power of direction is there, it is not common sense to enforce collaboration to the detriment of the mentoring authority. That is self-evident.”<sup>247</sup>

221. Dywedodd y Gweinidog hefyd:

“I agree that if an organisation absolutely, categorically, 110 per cent refused to engage, it would probably be counterproductive to use the powers of direction to enforce collaboration. There has to be some sort of reasonableness about that decision.”<sup>248</sup>

---

<sup>242</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [51], 2 Rhagfyr 2008

<sup>243</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG14

<sup>244</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG19

<sup>245</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG21

<sup>246</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [44], 4 Tachwedd 2008

<sup>247</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [98], 4 Tachwedd 2008

<sup>248</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [174], 2 Rhagfyr 2008

222. Rydym wedi nodi bod yna wrthwynebiad cryf i'r pwerau i gyfarwyddo awdurdodau i gydlafurio a geir yn adrannau 30(2)(c) a 31 o'r Mesur arfaethedig. Er hynny, rydym o'r farn bod y pwerau hyn yn briodol. Rydym yn derbyn barn y Gweinidog na fyddai'r pwerau hyn yn cael eu defnyddio fel rhan o'r gweithgarwch arferol ac yn nodi cydnabyddiaeth y Gweinidog y byddai'n wrthgynhyrchiol eu defnyddio o dan rai amgylchiadau. Rydym hefyd wedi dod i'n casgliad ar sail ein hargymhelliad ynghylch cynnwys darpariaeth yn adran 29 i'w gwneud yn ofynnol bod rhaid ymgynghori cyn i'r pŵer a ddarperir gan yr adran honno gael ei arfer; dylai cynnwys pŵer o'r fath sicrhau, ran amlaf, fod yna ddeialog gydag awdurdod gwella yn gynnar yn y broses a chyn unrhyw benderfyniad dilynol i arfer y pŵer o dan adran 30(2)(c). Rydym o'r farn y byddai'r angen i ymgynghori er mwyn datrys y problemau yn rhy hwyr ac yn ddibwrpas bron erbyn i ystyriaeth gael ei rhoi i roi cyfarwyddyd o dan adran 30(2)(c).

#### **Adrannau 37-46: Cynllunio cymunedol a strategaethau cymunedol**

##### *Y cefndir*

223. Mae adran 37(1) yn gosod dyletswydd ar yr awdurdodau lleol i gychwyn, cynnal, hwyluso a chymryd rhan mewn cynlluniau cymunedol ar gyfer eu hardal. Mae dyletswydd hefyd yn cael ei gosod ar bartneriaid cynllunio cymunedol i gymryd rhan mewn cynlluniau cymunedol a helpu'r awdurdod i gyflawni ei ddyletswyddau o dan is-adran (1).

224. Mae adran 38 yn rhestru'r cyrff cyhoeddus sydd wedi'u diffinio fel 'partneriaid cynllunio cymunedol', sef: cyngorau cymuned, awdurdodau tân ac achub, Byrddau Iechyd Lleol, ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, awdurdodau heddlu a phrif gwnstabl yr heddlu ar gyfer ardal yr awdurdod heddlu.

225. Mae adran 39 yn pennu'r trefniadau i awdurdod lleol gynhyrchu strategaeth gymunedol a sut y dylai'r partneriaid cynllunio cymunedol gael eu cynnwys. Mae adrannau 40-43 yn nodi'r trefniadau ar gyfer adolygu, monitro a gweithredu'r strategaeth gymunedol.

226. Mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn deud bod y Mesur arfaethedig yn bwriadu:

ei gwneud hi'n ddyletswydd gyffredin ar i ddarparwyr gwasanaethau lleol baratoi a chyflwyno strategaeth gymunedol a chynllun gweithredu cysylltiedig.<sup>249</sup>

---

<sup>249</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.12

*Dyletswydd mewn perthynas â chynllunio cymunedol - tystiolaeth y rhanddeiliaid*

227. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad ym mharagraffau 28 i 34, cafwyd cefnogaeth eang i'r ddarpariaeth yn y Mesur arfaethedig ar gynllunio cymunedol.

228. Roedd Un Llais Cymru o blaid y ddyletswydd i gymryd rhan mewn cynllunio cymunedol sydd wedi'i nodi yn adran 37 "as it is recognised that this is a failing of the current system".<sup>250</sup> Roedden nhw'n cytuno â'r farn a fynegwyd ym Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cynulliad Cymru bod y cydlafurio rhwng darparwyr gwasanaethau lleol wedi bod yn dameidiog ac anghyson.<sup>251</sup> Yn achos cyngorau tref a chymuned, dywedodd Un Llais Cymru nad ydyn nhw'n teimlo yn aml iawn bod eu gwaith yn cael ei gydnabod yn ddigon eang "in some of the wider strategies that are being developed" a bod yna groeso felly i'r ffaith eu bod yn cael eu cynnwys.<sup>252</sup>

229. Yn yr un modd, dywedodd Cymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru, (WACPO):

"...we are not involved as much as we really want to be. That is not reticence on our part – I am talking now for the four chief constables – it is actually the failure of some of our partners to understand the contribution that we can make."<sup>253</sup>

er eu bod wedi mynegi pryderon am y ddyletswydd sy'n cael ei gosod ar brif gwnstabiliaid o dan adran 37 gan eu dynodi felly'n bartner cynllunio cymunedol o dan adran 38<sup>254</sup> (gweler paragraff 238 isod).

230. Dywedodd Awdurdodau Heddlu Cymru eu bod yn cael eu hanghofio weithiau<sup>255</sup> a'u bod nhw, o ganlyniad i hynny, yn gefnogol yn fras i'r ddyletswydd i gydweithredu gan y byddai'n rhoi cyfle i awdurdodau heddlu chwarae eu rhan.<sup>256</sup>

231. Dywedodd Cyngor Caerdydd eu bod o blaid rhoi'r rôl arwain yn y broses cynllunio cymunedol i'r awdurdodau lleol.<sup>257</sup> Argymhellodd CLILC y dylai'r rôl honno gael ei hail-ddatgan drwy gyfrwng canllawiau.<sup>258</sup>

*Dyletswydd mewn perthynas â chynllunio cymunedol - ein barn ni*

**232. Rydym yn nodi bod y darpariaethau yn y Mesur arfaethedig ar gynllunio cymunedol wedi ennyn cefnogaeth eang.**

<sup>250</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG7

<sup>251</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.8

<sup>252</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [16], 18 Tachwedd 2008

<sup>253</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [14], 18 Tachwedd 2008

<sup>254</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG3; Cofnod y Trafodion, paragraff [56], 18 Tachwedd 2008

<sup>255</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [17], 18 Tachwedd 2008

<sup>256</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [22], 18 Tachwedd 2008

<sup>257</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG8

<sup>258</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG1

233. Rydym yn cytuno bod y ddyletswydd yn adran 37 o'r Mesur arfaethedig yn briodol ac yn argymhell y dylai rôl arwain yr awdurdodau lleol yn y broses cynllunio cymunedol gael ei datgan drwy gyfrwng canllawiau.

*Partneriaid cynllunio cymunedol - barn y rhanddeiliaid*

234. Nododd sawl rhanddeiliad nad yw rhai sefydliadau pwysig wedi'u henwi yn y rhestr o bartneriaid cynllunio cymunedol yn adran 38, megis grwpiau gwirfoddol a chymunedol, busnes, prifysgolion, cymdeithasau tai, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ac adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Roedd yna deimlad y dylai'r partneriaid hyn gael eu cynnwys yn llawn wrth gynllunio cymunedau.

235. Awgrymodd Un Llais Cymru y dylai enwi'r cynghorau cymuned yn bartneriaid cynllunio cymunedol statudol sicrhau bod y sector yn cael ei gynnwys mewn modd mwy rhagweithiol.<sup>259</sup>

236. Cydnabu Interlink<sup>260</sup> fod angen cynnwys y sector gwirfoddol mewn cynllunio cymunedol, gan danlinellu bod hynny'n bwysig er mwyn gwella penderfyniadau lleol a sicrhau gwelliannau hirdymor mewn gwasanaethau.

237. Roedd nifer o sefydliadau'n amau a oedd ganddyn nhw'r gallu i fod yn bartner cynllunio cymunedol, yn enwedig am y bydd angen iddyn nhw gydgyssylltu â nifer o gyrff yn eu hardal ddaearyddol. Er enghraifft, dywedodd y Gwasanaeth Tân ac Achub:

“Improving community safety is at the heart of our policies however, section 37(3) places a potentially unmanageable burden upon our resources. Certainly in principle we support the requirements in that every community planning partner must assist the local Authority in the discharge of its community planning duties. The practicalities of this however, may well create capacity issues since our functions are not always coterminous with demand areas.”<sup>261</sup>

238. Er eu bod yn cefnogi'n llwyr amcan y Mesur arfaethedig o sicrhau bod yr awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus eraill yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i sicrhau strategaethau cymunedol cydlynol, roedd WACPO yn amau a oedd angen dynodi prif gwnstabiliaid yn bartneriaid cynllunio cymunedol o dan adran 38 gan eu bod eisoes wedi'u mandadu i weithio mewn partneriaeth o dan *Ddeddf Troseddau ac Anhrefn 1998*, sy'n gweithredu leded Cymru a Lloegr.<sup>262</sup> Pwysleisiodd WACPO eu bod wedi ymrwymo i weithio gyda'i gilydd<sup>263</sup> ond y byddai dyletswydd ychwanegol yn gosod baich newydd arnyn nhw ac yn creu goblygiadau ariannol.<sup>264</sup>

---

<sup>259</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG7

<sup>260</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG9

<sup>261</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG11

<sup>262</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG3

<sup>263</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [57], 18 Tachwedd

<sup>264</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [56-7], 18 Tachwedd



239. Awgrymodd CPON fod problemau wedi bod ynglŷn â capasiti ar draws Cymru, er enghraifft, o ran y sector gwirfoddol, lle'r oedd y problemau'n ymwneud â "capacity but certainly not of capability" a hefyd y gwasanaeth iechyd, yn bennaf oherwydd materion a oedd yn codi yn sgil ad-drefnu.<sup>265</sup> Roedd WACPO ac Awdurdodau Heddlu Cymru yn cytuno.<sup>266</sup>

#### *Partneriaid cynllunio cymunedol - barn y Gweinidog*

240. Wrth egluro pam nad oedd rhai sefydliadau wedi'u cynnwys fel partneriaid cynllunio cymunedol, esboniodd y Gweinidog:

"There are a few other national organisations, such as the Environment Agency and the Countryside Council for Wales. We hope that they will be involved, where appropriate, but felt that it would be challenging for them to interact with 22 local authorities on a daily basis. We know that the police in Wales have a good relationship with local authorities, but they can struggle at times to work with all 22 local authorities, although, in fairness, they are positive. The fire service also finds it difficult to interface with all 22 authorities on a day-to-day, routine basis, despite the fact that it does so as and when needed."<sup>267</sup>

241. Esboniodd un o gyfreithwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru na allai'r sector gwirfoddol a'r sector busnes fod yn bartneriaid cynllunio cymunedol am y byddai hynny y tu allan i gymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol o gofio nad oes gan y cyrff hyn swyddogaethau o natur gyhoeddus.<sup>268</sup>

242. Dywedodd y Gweinidog y byddai gan bartneriaid cynllunio cymunedol "without any doubt" y gallu i gydymffurfio â'r ddyletswydd i gymryd rhan.<sup>269</sup> Er hynny, cydnabu y byddai yna heriau o ran capasiti i bartneriaid cynllunio cymunedol a fyddai'n gorfod cydgysylltu a nifer o gyrff yn eu hardal ddaearyddol.<sup>270</sup> O ran y Gwasanaeth Tân ac Achub, dywedodd y Gweinidog hyn:

"... do not forget that the fire and rescue authorities will be interfacing with the local authorities in a relatively narrow area of activity. It would be impossible for fire and rescue authorities to engage with local authorities across the full ambit of the community strategy. However, in most instances, they will interface in only a relatively narrow area of community strategy and, hopefully, that will not be particularly burdensome."<sup>271</sup>

<sup>265</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [83], 18 Tachwedd

<sup>266</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [89-90], 18 Tachwedd

<sup>267</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [114], 4 Tachwedd 2008

<sup>268</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [118], 4 Tachwedd 2008

<sup>269</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [126], 4 Tachwedd 2008

<sup>270</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [199], 2 Rhagfyr 2008

<sup>271</sup> Ibid

243. O'i holi am beri bod WACPO yn bartner cynllunio cymunedol, dywedodd y Gweinidog:

“Our understanding is that the existing powers ... are much more focused on the more easily identifiable policing duties—in other words, duties that are strictly to do with law and order: community safety in a narrow sense, and possibly drugs and alcohol ... However, as part of the wider community strategy, police have a contribution to make outside the confines of that relatively narrow area, and I understand that the chief constables in their own evidence conceded that point, that their involvement in community planning is wider than that required in the narrow interpretation of law and order roles under that particular piece of legislation.”<sup>272</sup>

244. Dywedodd un o gyfreithwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru fod cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol yn cynnwys gosod gofynion mewn cysylltiad â strategaethau ar bersonau sydd â swyddogaethau o natur gyhoeddus<sup>273</sup> ac y byddai prif gwnstabiliaid (ac awdurdodau heddlu) yn dod o fewn y cymhwysedd hwn.<sup>274</sup>

245. Dywedodd y Gweinidog hefyd fod y rhestr yn adran 38 yn briodol ar hyn o bryd a'i bod yn cynnwys y cyfranwyr allweddol<sup>275</sup> gan nodi bod adran 38 yn caniatáu ychwanegu at y rhestr drwy orchymyn.<sup>276</sup> Dywedodd hefyd fod rhaid i'r awdurdodau lleol gynnwys personau a sefydliadau penodol wrth ddatblygu'r cynllun cymunedol o dan ddarpariaethau adran 44<sup>277</sup> o'r Mesur arfaethedig. Roedd yn teimlo y byddai'n "inconceivable" felly i strategaeth gymunedol gael ei mabwysiadu heb, er enghraifft "such a big local player as a university".<sup>278</sup> Dywedodd hefyd y byddai canllawiau'n cael eu darparu ar y broses cynllunio cymunedol.<sup>279</sup>

#### *Partneriaid cynllunio cymunedol - ein barn ni*

246. Rydym o'r farn bod y rhestr o bartneriaid cynllunio cymunedol yn briodol fel y mae wedi'i drafftio yn adran 38. Wrth ddod i'r casgliad hwn, rydym yn nodi bod adran 38(2) o'r Mesur arfaethedig yn caniatáu i'r rhestr gael ei newid drwy orchymyn.

247. O ran cynnwys y prif gwnstabiliaid yn benodol, rydym yn nodi'r pryderon a fynegwyd gan WACPO. Rydym yn fodlon bod cynnwys y prif gwnstabiliaid yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol ac yn credu y bydd eu cynnwys yn rhoi sicrwydd i'w rôl ac yn fuddiol i'r broses cynllunio cymunedol.

<sup>272</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [176], 2 Rhagfyr 2008; y darn penodol o ddeddfwriaeth o dan sylw yw *Deddf Troseddau ac Anhrefn 1998*

<sup>273</sup> O dan Fater 12.4 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

<sup>274</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [179], 2 Rhagfyr 2008

<sup>275</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [185], 2 Rhagfyr 2008

<sup>276</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [187], 2 Rhagfyr 2008

<sup>277</sup> Gan gynnwys, er enghraifft, cynrychiolwyr cyrff gwirfoddol a busnesau perthnasol

<sup>278</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [195], 2 Rhagfyr 2008

<sup>279</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [197], 2 Rhagfyr 2008

248. Yn gysylltiedig â'n hystyriaeth ar adran 38, rydym wedi nodi bod adran 44 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a phartneriaid cynllunio cymunedol ymgynghori â phersonau a sefydliadau penodedig. Yn benodol, rydym yn croesawu'r cyfeiriad penodol at ymgynghori â sefydliadau gwirfoddol a sefydliadau busnes, o gofio'r rhan hanfodol y gallan nhw ei chwarae yn y broses cynllunio cymunedol.

249. Er ein bod yn cydnabod y byddai adran 44 hefyd yn caniatáu ymgynghori â sefydliadau fel prifysgolion, rydym o'r farn y dylai'r ddarpariaeth hon gael ei chryfhau. Gan hynny, rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant priodol i gynnwys 'cynrychiolwyr cyrff cyhoeddus perthnasol' (neu derm tebyg o'r fath) fel person i'w restru yn adran 44(2). Rydym hefyd yn argymhell y dylai'r canllawiau roi sylw i'r amrywiaeth o sefydliadau cyffredinol y disgwylir i awdurdod lleol a'i bartneriaid cynllunio cymunedol ymgynghori â nhw.

250. Rydym hefyd yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant priodol i ganiatáu i'r rhestr o bersonau a gynhwysir yn adran 44(2) gael ei diwygio drwy orchymyn.

#### *Strategaethau cymunedol - barn y rhanddeiliaid*

251. Doedd dim gwrthwynebiadau i'r angen am strategaethau cymunedol o dan adran 39. Cafodd pwysigrwydd strategaethau o'r fath ei danlinellu gan Un Llais Cymru, a ddywedodd y bydden nhw'n cefnogi "the continued pre-eminence of the community strategy over the other plans that unitary authorities are currently engaged in delivering with other partners"<sup>280</sup> a'u bod yn teimlo bod y pwyslais ar fonitro a gweithredu ynglŷn â chynllunio cymunedol yn bwysig.<sup>281</sup> Roedd Awdurdodau Heddlu Cymru'n teimlo ei bod yn bwysig "that the community strategy is informed by other plans, and that it informs them".<sup>282</sup>

252. Mae adran 39 yn ei gwneud yn ofynnol bod consensws yn cael ei sicrhau rhwng yr awdurdodau lleol a'r partneriaid cynllunio cymunedol cyn i strategaeth gymunedol gael ei chynhyrchu, ac yn rhoi'r dasg o ddrafftio'r strategaeth honno i'r awdurdodau lleol. Mae rhai sefydliadau wedi dweud, wrth ymateb i gwestiynau, y dylai rhwymedigaeth statudol gael ei gosod ar yr awdurdod lleol i ymgynghori â'r partneriaid ar ôl i ddrafft o'r strategaeth gael ei pharatoi. Roedd WANPA yn teimlo bod adran 39 wedi'i llunio "slightly curiously" a hefyd:

"There is perhaps a degree of subjectivity and imprecision here that could make it difficult to require the effective discharging of this obligation in the event of a problem; it could perhaps cause uncertainty for planning partners. We therefore consider that there should be a statutory obligation on the local authority to consult with

<sup>280</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [95], 18 Tachwedd 2008

<sup>281</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [30], 18 Tachwedd 2008

<sup>282</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [94], 18 Tachwedd 2008

partners and this would perhaps mitigate the potential lack of accountability in the arrangements as drafted.”<sup>283</sup>

253. Gofynnodd WANPA am i’r Mesur gynnwys:

“... an express acknowledgement that a community strategy that relates to a National Park should have to take into account, and embrace, the policies of the National Park Management Plan (and so of National Park statutory purposes) in reflection of the existing requirement in Section 62(2) of the Environment Act 1995.”<sup>284</sup>

254. Dywedodd WANPA fod y Mesur arfaethedig yn cynnig “a golden opportunity to formally recognise and embed the influence that national parks’ statutory purposes and the provisions of the national park management plan should properly exercise over policy and practice affecting national parks.”<sup>285</sup>

255. Yng nghyd-destun y ddyletswydd i adolygu strategaethau cymunedol o dan adran 40, mynegodd CLILC rywfaint o bryder ynghylch cysyniad “review as a periodic event” ac yn benodol ynghylch y cyfnod adolygu o bedair blynedd ar gyfer strategaethau cymunedol sydd wedi’i nodi yn yr adran honno.<sup>286</sup> Aeth CLILC ymlaen i ddweud:

“... ‘review’ is better regarded as a continuous process rather than a periodic event. This does not prevent periodic review ‘events’ .... but statutory requirements for such events can undermine the development of continuous processes. At the very least, we would recommend that the requirements in relation to review (and particularly timetabling) should be established in supporting guidance, rather than being set in stone in the core legislation.”<sup>287</sup>

256. Dywedodd Un Llais Cymru “the four-year period is right for doing that significant review, but it probably needs an annual refresh, to ensure that any significant developments can be taken on board.”<sup>288</sup>

257. Ym marn CPON, “a four-year process for updating it is appropriate, although the WLGAs has raised a valid point in that there is a need to reconsider the community strategy if events change significantly within a local area.”<sup>289</sup>

258. Er eu bod yn croesawu cynnwys adran 46 o’r Mesur arfaethedig ynghylch rôl Gweinidogion Cymru mewn cynllunio cymunedol, awgrymodd CLILC y dylai gael ei chryfhau drwy gynnwys rôl gliriach i Weindogion Cymru, fel y dylen nhw roi sylw i’r “priorities outlined in community

<sup>283</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [84], 2 Rhagfyr 2008

<sup>284</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG14

<sup>285</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [79], 2 Rhagfyr 2008

<sup>286</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG1

<sup>287</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG1

<sup>288</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [102], 18 Tachwedd 2008

<sup>289</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [103], 18 Tachwedd 2008

strategies in the exercise of their functions”.<sup>290</sup> Yn ôl CLILC, “community strategies are the partnership aspirations and visions of all key local players, which have been shaped by extensive public engagement and underpinned by extensive evidence based research”. Roedd CLILC yn teimlo y dylai’r blaenoriaethau a geir yn y strategaethau cymunedol gael eu defnyddio i fwydo polisiau, blaenoriaethau a strategaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac felly:

“Given the level of citizen and community involvement in shaping the community strategy priorities, such an approach would be sensible mechanism for ensuring Assembly Government policies are themselves ‘citizen-centred’.”<sup>291</sup>

### *Strategaethau cymunedol - barn y Gweinidog*

259. Esboniodd y Gweinidog y rhesymu y tu ôl i strategaethau cymunedol:

“The community strategy ... will require actions. As part of this, it will indicate not only what the vision is, but it will also place an expectation that the actions to deliver the vision be outlined. Those actions will then form part of the improvement regime. So, for the first time, there will be an organic link between the actions required to deliver the community strategy and the wider improvement agenda, which all of this proposed Measure is intended to achieve.”<sup>292</sup>

260. Rhoddodd y Gweinidog eglurhad hefyd ar y trefniadau ar gyfer adolygu a monitro strategaethau cymunedol, gan ddweud y gall strategaethau cymunedol gael eu hadolygu’n amlach na phob pedair blynedd, gan ychwanegu:

“There is a requirement that, every two years, progress towards delivering the community strategy should be monitored and a report produced on that. So ... if people feel that, because circumstances change dramatically – if a new university opens, a new big employer comes into the area, or a factory closes – it is necessary to review the community strategy, there is nothing to stop them from doing so. It must be done every four years, but it is not the case that it can only be done every four years.”<sup>293</sup>

### *Ein barn ni*

**261. Rydym yn cytuno â barn CLILC y dylid barnu bod adolygu strategaethau cymunedol yn broses barhaus ond rydym o’r farn bod y trefniadau sydd wedi’u nodi yn y Mesur arfaethedig yn fframwaith priodol ar gyfer adolygu a monitro strategaethau cymunedol.**

---

<sup>290</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG1

<sup>291</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG1

<sup>292</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [107], 4 Tachwedd

<sup>293</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [201], 2 Rhagfyr 2008

262. Er hynny, o ran adran 39, rydym o'r farn y byddai'n gall gosod rhwymedigaeth statudol ar awdurdod lleol i ymgynghori â'r partneriaid cynllunio cymunedol pan fyddai drafft o'r strategaeth gymunedol wedi'i pharatoi. Gan hynny, rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i wneud y newid hwn.

263. Rydym hefyd yn argymhell y dylai'r Gweinidog ystyried cyflwyno gwelliant fel bod y Mesur arfaethedig yn cynnwys cydnabyddiaeth bendant y dylai fod rhaid i strategaeth gymunedol sy'n ymwneud â Pharc Cenedlaethol gymryd i ystyriaeth, a chofleidio, bolisiâu Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol.

264. Rydym yn credu bod cryn rinwedd yn awgrym CLILC y dylai adran 46 o'r Mesur arfaethedig gael ei chryfhau fel y dylai Gweinidogion Cymru roi sylw i'r blaenoriaethau sydd wedi'u hamlinellu mewn strategaethau cymunedol wrth arfer eu swyddogaethau. Gan hynny, rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog ystyried cyflwyno gwelliant priodol i roi sylw i'r pwynt hwn.

## 5. Y goblygiadau ariannol

### *Tystiolaeth y rhanddeiliaid*

265. Mae nifer o'r rhai a ymatebodd i ymarfer ymgynghori'r Pwyllgor wedi herio'r gosodiad yn y Memorandwm Esboniadol nad yw'r Mesur arfaethedig yn arwain at gostau gweinyddu, costau cydymffurfio na chostau eraill.<sup>294</sup> Dywedodd CLLLC:

“Many of the activities of the Measure require finance and administrative capacity to deliver them properly, such as collating and publishing performance information, consulting with and engaging the public in community planning, coordinating and servicing the community planning process and undertaking compliance activity. Whilst some of the improvement activity may lead to efficiency savings in the longer term, some activities (such as collaborative ventures) may require significant pump-priming investment.”<sup>295</sup>

266. Dywedodd SOLACE wrthon ni:

“There is a sweeping statement that no additional costs are expected to fall to improvement authorities as a result of this proposed Measure. We dispute that claim strongly. We do not have any issue with the need for the costs or, in broad terms, with the need for the Measure to do what it will do, but we strongly dispute the notion that there is no extra resource requirement for fulfilling the Measure. There are many things to consider, for example, the monitoring and reporting of performance information; the publishing of improvement plans; leading the process of community planning, which can be expensive, certainly in staff time; engaging with residents and the many other bodies of people who are talked about in the proposed Measure; and publishing community strategies. Some of these things happen already, but as far as the proposed Measure is concerned, there are implications in terms of a lot of extra expenditure, time and financial resources.”<sup>296</sup>

267. O ran ffioedd archwilio, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol:

“As with any change programme, it is likely that costs will arise from the additional development work required during the early stages of implementation. In addition, the different arrangements that the proposed Measure requires or allows me to put in place may also have an impact on the fees that authorities pay. However, until we have a clear idea of the guidance that will determine the details of implementation I am not able to assess the financial implications but will be revisiting the issue as things develop.”<sup>297</sup>

---

<sup>294</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 6.2

<sup>295</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG1

<sup>296</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [54], 25 Tachwedd 2008

<sup>297</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG2

268. Mynegwyd pryderon am y cynnydd posibl mewn ffioedd archwilio gan y Gwasanaeth Tân ac Achub<sup>298</sup> a WANPA.<sup>299</sup>

269. Dywedodd y Gwasanaeth Tân ac Achub y byddai'r Mesur arfaethedig yn cael effaith ar adnoddau:

“My service covers six county council areas, North Wales Fire and Rescue Service also covers six and South Wales Fire and Rescue Service covers 10. We currently get involved in local planning issues and community safety planning partnerships; I would not say that that is a drain on resources, but, certainly, there is an issue there around the expectation of local authorities as to the level of participation, vis-à-vis my and my fellow chief fire officers' ability to support that planning regime ...

... I do not think that the resource implication should be underestimated from the fire and rescue service's point of view. We are a single service provider across a range of local authority areas, which has implications for the way that we deliver our service.”<sup>300</sup>

#### *Ystyriaeth y Pwyllgor Cyllid*

270. Ystyriodd y Pwyllgor Cyllid y Mesur arfaethedig yn eu cyfarfod ar 4 Rhagfyr 2008, yn unol â Rheol Sefydlog 14.2. Cymerodd dystiolaeth lafar gan y Gweinidog a'i swyddogion. Gosododd y Pwyllgor eu hadroddiad gerbron y Cynulliad ar 10 Rhagfyr 2008.<sup>301</sup>

271. Daeth adroddiad y Pwyllgor i'r casgliad eu bod yn cefnogi'r Mesur arfaethedig o safbwynt ariannol, ond eu bod wedi'u siomi bod llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi cyn lleied o wybodaeth am y costau sy'n gysylltiedig â'r Mesur arfaethedig.

#### *Ein barn ni*

272. Rydym yn nodi casgliadau'r Pwyllgor Cyllid ac yn rhannu eu siom bod cyn lleied o wybodaeth am y costau sy'n gysylltiedig â'r Mesur arfaethedig wedi'i darparu. Oherwydd y pryderon a godwyd yn ein tystiolaeth ni, rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth y Cynulliad fynd ati'n barhaus i fonitro'r goblygiadau ariannol ar gyfer awdurdodau gwella a phartneriaid cynllunio cymunedol yn sgil rhoi'r Mesur arfaethedig ar waith. O ganlyniad, rydym yn argymhell hefyd y dylai Llywodraeth y Cynulliad roi cynnllid priodol i'r awdurdodau yn ôl yr angen fel ffordd i sicrhau bod amcanion y Mesur arfaethedig yn cael eu gwireddu'n llwyddiannus.

<sup>298</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG11

<sup>299</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, LG14

<sup>300</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff [67-8], 2 Rhagfyr 2008

<sup>301</sup> Ar gael yn: <http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-fin-home/bus-committees-third-fin-report/bus-committees-third-fin-report-fin3-08-r16.htm>



## 6. Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

### *Y cefndir*

273. Ystyriodd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth y Mesur arfaethedig, yn unol â Rheol Sefydlog 15.6 ar 4 a 25 Tachwedd, gan gymryd tystiolaeth lafar gan y Gweinidog a'i swyddogion yn y cyfarfod olaf. Gosododd y Pwyllgor eu hadroddiad gerbron y Cynulliad ar 13 Ionawr 2009.<sup>302</sup>

### *Ein barn ni*

274. Rydym yn nodi casgliad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth eu bod yn fodlon ar y darpariaethau ynglŷn ag is-ddeddfwriaeth yn y Mesur arfaethedig a'r weithdrefn ynglŷn â nhw. Rydym yn cytuno â chasgliadau'r Pwyllgor.

---

<sup>302</sup> Ar gael yn: <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-guide-docs-pub/bus-business-documents/bus-business-documents-doc-laid.htm?act=dis&id=111270&ds=1/2009>





Atodiadau



Rhif	Sefydliad
LG1	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)
LG2	Archwilydd Cyffredinol Cymru
LG3	Cymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru
LG4	Awdurdodau Heddlu Cymru
LG5	Estyn
LG6	Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (CSSIW)
LG7	Un Llais Cymru
LG8	Cyngor Sir Caerdydd
LG9	Interlink, Cyngor Gwirfoddol Sirol Rhondda Cynon Taf
LG10	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
LG11	Y Gwasanaeth Tân ac Achub
LG12	Cymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol ac Uwch-reolwyr yng Nghymru (SOLACE)
LG13	Cyngor Gwynedd
LG14	Cymdeithas Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru (WANPA)
LG15	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
LG16	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
LG17	Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
LG18	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
LG19	Cyngor Sir Caerfyrddin
LG20	Y Gymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus
LG21	Cyngor Sir Ddinbych
LG22	Cyngor Sir Ynys Môn
LG23	Dr Tom Entwistle, Ysgol Fusnes Caerdydd
LG24	Rhwydwaith Swyddogion Cynllunio Cymunedol (CPON)

Gellir dod o hyd i'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn:

<http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/business-legislation-measures-lg/business-legislation-measures-lg-responses.htm>

Rhestr o dystiolaeth lafar

Atodiad 2

Dyddiad	Tystion
4 Tachwedd 2008	Dr Brian Gibbons AC, Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig
11 Tachwedd 2008	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)  Archwilydd Cyffredinol Cymru (Swyddfa Archwilio Cymru)
18 Tachwedd 2008	Cymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru (WACPO)  Rhwydwaith Swyddogion Cynllunio Cymunedol (CPON)  Un Llais Cymru  Awdurdodau Heddlu Cymru
25 Tachwedd 2008	Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch Reolwyr Awdurdodau Lleol yng Nghymru (SOLCAE)  Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (CSSIW)  Estyn, Arolygiaeth ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  Dr Tom Entwistle, Ysgol Fusnes Caerdydd
2 Rhagfyr 2008	Y Gwasanaeth Tân ac Achub  Cymdeithas Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru (WANPA)  Dr Brian Gibbons AC, Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig

Mae trawsgrifiadau'r sesiynau tystiolaeth lafar i'w gweld yn:

<http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-lg-agendas.htm>